Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

Anweithgarwch Economaidd yng Nghymru

Ebrill 2005

Further hard copies of this document can be obtained from:

Paul Davies
Economic Development and Transport Committee
The National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Tel: 029 2089 8429
E-mail: DavidPaul.Davies@wales.gsi.gov.uk
Website: http://www.wales.gov.uk

Printed in the UK on paper comprising 75% post-consumer waste and 25% ECF pulp

G/445/04-05
ISBN 0 7504 3733 2

April
CMK-22-09-011

Typeset in 12pt
© Crown copyright 2005

Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

Anweithgarwch Economaidd yng Nghymru

Ebrill 2005

Aelodau'r

Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

Chris Gwyther
(Cadeirydd)
Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro

Alun Cairns
Gorllewin De Cymru

Chris Chapman
Cwm Cynon

Andrew Davies
(Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth)
Gorllewin Abertawe

Janet Davies
Gorllewin De Cymru

Lisa Francis
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Brian Gibbons
Aberafan

Elin Jones
Ceredigion

Lynne Neagle
Tor-faen

Jenny Randerson
Canol Caerdydd

Rhagair y Cadeirydd

Mae Cymru wedi gwneud cynnydd sylweddol i weddnewid ei heconomi ers y dyddiau pan oedd yn dibynnu ar ddiwydiannau traddodiadol fel glo a dur. Mae nifer fawr o ddiwydiannau newydd, technoleg uchel yn cael eu datblygu ac mae gan Gymru bellach gwmnïau llwyddiannus a chystadleuol iawn mewn amrywiaeth eang o sectorau. Serch hynny, mae lle i wella o ran ein cyfradd o weithgarwch economaidd – cyfran y boblogaeth sydd naill ai mewn gwaith neu'n chwilio am waith. Mae'r rhesymau am hyn yn gymhleth ac er gwaethaf gwaith ymchwil manwl, dim ond yn rhannol rydym wedi'u deall. Datrys problem gweithgarwch isel yw un o'r camau mwyaf sy'n wynebu economi Cymru. Teimlai'r Pwyllgor felly y dylai ei adolygiad polisi cyntaf ganolbwyntio ar y maes hwn.

Mae problem anweithgarwch economaidd yn fater cymhleth ac roedd y Pwyllgor yn awyddus i gynnal adolygiad a fyddai'n arwain at gamau cadarnhaol. O ganlyniad, er ei fod wedi ceisio amrywiaeth o safbwyntiau i ddechrau, penderfynodd ganolbwyntio ar rai materion allweddol. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau ac argymhellion y Pwyllgor mewn perthynas â'r materion hyn.

Mae'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi'r dystiolaeth a gyflwynwyd ar lafar ac yn ysgrifenedig. Mae'n arbennig o ddiolchgar i'r bobl a'r sefydliadau a ddaeth i'r Cynulliad yng Nghaerdydd i gyfarfod â'r Pwyllgor ac i'r rhai a drefnodd ymweliadau ar ein cyfer. Mae rhestr lawn ohonynt yn yr Atodiadau. Yn olaf, hoffwn gofnodi fy mod i â'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi gwaith Gwasanaethau Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau yn ein cynorthwyo a'n cefnogi wrth baratoi'r adroddiad hwn.

Christine Gwyther AC
Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth
Ebrill 2005

Cynnwys

		Tudalen
Crynodeb o'r Argymhellion		ix
1	Rhagarweiniad	1
2	Cefndir	5
3	Canfyddiadau Cyffredinol	9
4	Trafodaeth ar Faterion Unigol	13
Atodiadau		
A	Llythyr gan y Cadeirydd yn gwahodd ymatebion i'r ymgynghoriad	43
B	Rhestr o'r bobl a'r sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad	45
C	Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad	47

Crynodeb o'r Argymhellion

Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dadansoddi ac yn cyflwyno'r wybodaeth sydd eisoes ar gael mewn ffyrdd sy'n dangos dealltwriaeth well am y materion dan sylw a'r atebion posibl.

Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor o'r farn bod yna dystiolaeth sylweddol o blaid dull 'seiliedig ar bobl' o fynd i'r afael â phroblemau anweithgarwch economaidd, ac mae'n ei gymeradwyo'n gryf fel sylfaen i helpu pobl i gael gwaith. Mae'n argymell y dylai rhaglenni ganolbwyntio ar oresgyn y rhwystrau mewnol y mae unigolion yn eu hwynebu.

Argymhelliad 3

Roedd y Pwyllgor yn pryderu hefyd am yr anawsterau y mae pobl economaidd anweithgar yn eu hwynebu yn sgil rhwystrau allanol, yn enwedig y problemau sy'n deillio o'u diffyg profiad a'r anhawster wrth geisio cael gafael ar y cymorth sydd ar gael. Mae'n argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru fod yn fwy rhagweithiol wrth sicrhau bod y cymorth sydd ar gael yn cael ei dargedu at y bobl hyn. Mae hefyd yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn nodi ac yn marchnata rhaglenni sy'n adlewyrchu amgylchiadau arbennig pobl ddi-waith, a bod staff sydd â'r sgiliau a'r profiad priodol a'r brwdfrydedd ar gael i gyflawni'r rhaglenni.

Argymhelliad 4

Roedd y dadleuon o blaid y credyd gwaith gwerth £40 i roi cymorth ariannol a chymhelliant i'r rhai sy'n dychwelyd i'r farchnad lafur, wedi creu argraff ar y Pwyllgor. Mae'n argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn amodol ar ganfyddiadau'r cynllun peilot, yn pwyso ar yr Adran Gwaith a Phensiynau i gyflwyno cynllun o'r fath.

Argymhelliad 5

Roedd y Pwyllgor yn fodlon â'r cynllun peilot a oedd yn darparu rhwyd ddiogelwch er mwyn annog pobl, yn arbennig pobl sydd wedi bod ar fudd-daliadau ers amser hir, i gymryd y risg allan o roi cynnig ar newid. Mae'n argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn pwyso ar yr Adran Gwaith a Phensiynau i gyflwyno'r 'pasbort' yn ôl i fudd-daliadau i fwy o bobl, yng ngoleuni canfyddiadau'r cynllun peilot.

Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru, trwy ELWa os yw'n briodol, yn cynnal rhaglen i annog cyflogwyr yn y sectorau gofal, twristiaeth ac adeiladu i ddarparu a chefnogi hyfforddiant sgiliau ar gyfer eu gweithwyr trwy gyfrwng rhaglenni dysgu yn y gweithle.

Argymhelliad 7

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid cynnal dadansoddiad trylwyr i gyfiawnhau unrhyw raglenni penodol er mwyn sicrhau nad yw ffactorau daearyddol yn lleihau'r cyfleoedd sydd ar gael i hyfforddi.

Argymhelliad 8

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod ffactorau fel amddifadedd cymdeithasol ac economaidd yn cael eu hystyried wrth bennu'r system ariannu ar gyfer addysg bellach, fel y bo cyrsiau ar gael ym mhob ardal.

Argymhelliad 9

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod yn llawn rôl allweddol y sector gwirfoddol i'w gwneud yn haws i bobl symud o fod yn anweithgar i fod mewn gwaith, a bod mwy o gefnogaeth yn cael ei rhoi i'r sector gwirfoddol ar gyfer y gwaith y mae'r sector yn ei wneud wrth gynnig cam cynnar i mewn i'r farchnad lafur.

Argymhelliad 10

Mae'r Pwyllgor yn cymeradwyo'r syniad o roi cyfle i unigolion gael profiad o weithio heb golli budd-daliadau. Mae'n argymell bod y syniad hwn yn cael ei ddatblygu ar gyfer rhaglenni yn y gymuned, yn enwedig prosiectau gwirfoddol, er mwyn annog a hwyluso'r amrywiaeth ehangaf bosibl o brofiad gwaith ar gyfer pobl sydd y tu allan i'r farchnad lafur.

Argymhelliad 11

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datblygu mecanweithiau i sicrhau mwy o gydweithio rhwng awdurdodau i ddatblygu partneriaethau Marchnadoedd Llafur Trosiannol, yn enwedig yng nghymoedd y De.

Argymhelliad 12

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried y posibilrwydd o gael Marchnadoedd Llafur Trosiannol i lenwi'r bwlch sy'n bodoli o ran y ddarpariaeth trafnidiaeth a gofal plant mewn cymunedau penodol. Wrth wneud hynny, mae'n pwysleisio y dylai'r gofal plant fod o'r un ansawdd uchel y sonnir amdano yn yr adroddiad hwn a chynnwys pobl sydd wedi cael eu hyfforddi i'w ddarparu.

Argymhelliad 13

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydweithio â'r sector gwirfoddol er mwyn ei ddatblygu i'w alluogi i gyflawni'n llawn ei botensial i leihau anweithgarwch economaidd gan roi sylw arbennig i ariannu a gwella delwedd y sector gwirfoddol.

Argymhelliad 14

Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai'r buddsoddiad yn y blynyddoedd cynnar gael ei dargedu at blant mewn cymunedau difreintiedig, a dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu cyllid i agor canolfan blant ym mhob cymuned ddifreintiedig ledled Cymru fel y cam cyntaf tuag at ddarpariaeth i bawb. Mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyried y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddatblygu'r fframwaith monitro a gwerthuso ar gyfer y

dyfodol ymhellach, a meincnodi pa mor effeithiol yw'r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar yng Nghymru o'i chymharu â chynlluniau mewn gwledydd eraill.

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn mynd ati i hybu cynnydd sylweddol yn y lleoliadau gofal plant sydd ar gael, ac yn arbennig, ei fod yn cael ei dargedu at yr ardaloedd hynny lle mae'r angen fwyaf.

Argymhelliad 15

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn mynd ati i archwilio a oes modd lleihau'r baich biwrocrataidd sy'n wynebu pobl sydd am gychwyn fel darparwyr gofal plant a chynnal y mesurau diogelwch sy'n ofynnol gan rieni.

Argymhelliad 16

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hybu ac yn annog Marchnadoedd Llafur Canolraddol i ddarparu gofal plant lle nodwyd bod galw am ddarpariaeth gofal plant a lle na all y farchnad gynnal darpariaeth breifat.

Argymhelliad 17

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried yr ystod lawn o ofal plant a ddarperir, gan gynnwys darpariaeth ar ôl ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol ar gyfer plant hŷn, ac ystyried sut y gellir ei wella er mwyn diwallu anghenion y rhieni'n well.

Argymhelliad 18

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Awdurdod Datblygu Cymru, neu bwy bynnag sy'n cymryd ei le'n y dyfodol, yn cydweithio â chwmnïau i godi eu hymwybyddiaeth am fanteision y cyfleusterau hyn, a chynnig cymhellion er mwyn eu hannog i fuddsoddi ynddynt.

Mae hefyd yn argymell bod Awdurdod Datblygu Cymru yn chwilio am ffyrdd o ddod â chwmnïau a darparwyr gofal plant sector preifat at ei

gilydd i ddatblygu ac ehangu'r math hwn o gyfleuster mewn ardaloedd diwydiannol.

Argymhelliad 19

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn chwilio am ffyrdd i feithrin cysylltiadau rhwng cynlluniau trafnidiaeth gyhoeddus a'r sector preifat er mwyn darparu gwasanaeth sy'n diwallu anghenion y cwsmeriaid yn well - yn enwedig anghenion pobl sy'n dychwelyd i'r gwaith.

Argymhelliad 20

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried sut i roi cymorth mwy gweithredol ar gyfer trafnidiaeth gymunedol er mwyn cyflawni arbedion, er enghraifft, drwy sicrhau bod llai o bobl yn colli apwyntiadau fel allgleifion gyda'r GIG yn ogystal â chyfrannu'n uniongyrchol at yr economi.

Argymhelliad 21

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnal adolygiad manwl o'r opsiynau ariannu sydd ar gael ar gyfer mudiadau trafnidiaeth gymunedol.

Argymhelliad 22

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydweithio â mudiadau trafnidiaeth gymunedol a'r awdurdodau lleol i ystyried sut y gellir defnyddio cerbydau awdurdodau lleol pan nad ydynt yn cael eu defnyddio ar gyfer gwasanaethau arferol.

Argymhelliad 23

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydweithio â llywodraeth y DU i ddatblygu ffyrdd mwy sensitif ac effeithiol o asesu ffitrwydd pobl i weithio.

Argymhelliad 24

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn chwilio am ffyrdd i ddatblygu a gwella'r gwasanaethau meddygol a gwasanaethau cynghori ar gyfer pobl sy'n dioddef gofid ac iselder o ganlyniad i ddiweithdra ac anweithgarwch economaidd hirdymor.

Argymhelliad 25

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn adolygu'r gwasanaethau iechyd galwedigaethol sydd ar gael yng Nghymru a'r gwaith a wneir i godi ymwybyddiaeth cyflogwyr amdanynt.

Argymhelliad 26

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried ffyrdd o sicrhau bod gwasanaethau iechyd galwedigaethol ar gael i fusnesau bach a chanolig.

Adran 1

Rhagarweiniad

1. Rhagarweiniad

1.1 Mae Cymru wedi gwneud cynnydd sylweddol i ailgodi ei heconomi ers y dyddiau pan oedd yn dibynnu ar ddiwydiannau traddodiadol fel glo a dur. Rydym yn datblygu economi seiliedig ar ddiwydiannau technoleg uchel newydd fel awyrofod, moduron, telathrebu ac ynni adnewyddadwy. Gwnaed llawer o waith da hefyd yn y sector gwasanaethau gan ganolbwyntio'n benodol ar ddefnyddio asedau naturiol i ddenu twristiaid. Bellach, mae gan Gymru ddiwydiannau modern llwyddiannus iawn a chwmnïau hynod gystadleuol ym mhob sector.

1.2 Serch hynny, er gwaetha'r holl ddatblygiadau, mae'r economi yng Nghymru ymhell ar ei hôl hi o gymharu â'r rhan fwyaf o ranbarthau yn y DU. Gellir gweld hyn yn glir yn lefel cynhyrchiant Cymru, fel y'i mesurwyd gan y Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (GDP) y pen, sy'n is na 80% o lefel y DU. Caiff hyn, yn ei dro, ei adlewyrchu yn lefel is yr enillion cyfartalog yng Nghymru, nad yw ond yn cael ei wrthbwyso'n rhannol gan gostau byw is.

1.3 Fodd bynnag, mae'r lefel cynhyrchiant yn debyg, ac o ran gwerth ychwanegol y person a gyflogir fesul diwydiant, mae perfformiad Cymru yn agos at gyfartaledd y DU. Gellir priodoli'r prif wahaniaethau rhwng cyfartaledd Cymru a'r DU yn gyntaf i'r ffaith bod cyfran is o'r boblogaeth o oed gweithio mewn gwaith neu'n chwilio am waith, ac yn ail i'r prinder swyddi cyflog uchel.

1.4 Mae'r cyntaf o'r rhain yn arwyddocaol ac yn gymharol hawdd i'w amcangyfrif. Gan ddefnyddio data o 2002 (y flwyddyn ddiweddaraf y mae data ar gael am y Cynnyrch Mewnwladol Crynswth yng Nghymru), pe bai'r gyfradd gyflogaeth yng Nghymru yn debyg i gyfartaledd y DU, byddai 85,000 yn fwy o bobl mewn swyddi a byddai ein GDP y pen yn cynyddu o 79% i 85% o gyfartaledd y DU. Mae'r ail yn anoddach i'w asesu, ond mae'n amlwg y byddai'r bwlch yn cau hyd yn oed yn fwy pe bai mwy o swyddi gwerth uchel yn cael eu denu i Gymru trwy gynyddu gwaith ymchwil neu sefydlu pencadlysoedd ar gyfer cwmnïau yng Nghymru er enghraifft.

1.5 Mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar y cyntaf o'r rhain.

1 http://wales.statistics.gov.uk/pdfdir/rgv0404.pdf

Adran 2

Cefndir

2. Cefndir

2.1 Er bod y nifer sy'n ddi-waith yng Nghymru a'r DU wedi bod yn gostwng dros y blynyddoedd diwethaf, mae nifer y bobl sy'n economaidd anweithgar, sef pobl nad ydynt mewn gwaith nac yn chwilio am waith, wedi aros tua'r un peth yng Nghymru a Lloegr. Fodd bynnag, er gwaethaf y gostyngiadau diweddar y gellir eu priodoli i'r ffaith bod mwy o fenywod hŷn yn gweithio, mae'r gyfradd anweithgarwch yng Nghymru yn dal i fod yn uwch na chyfartaledd y DU. Dyma fu'r sefyllfa erioed, ac ar gyfer pob person di-waith yng Nghymru ceir chwech a hanner sy'n economaidd anweithgar.

2.2 Ymddengys mai'r prif ffactor sydd wrth wraidd y twf mewn anweithgarwch economaidd dros y degawdau diwethaf yw bod llai o alw am weithwyr heb sgiliau ar draws y gwledydd datblygedig. Mae hyn wedi effeithio'n arbennig ar bobl sydd â salwch sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio. Mae goblygiadau'r gostyngiad yn y galw am weithwyr heb sgiliau wedi bod yn arbennig o ddifrifol yn y DU, oherwydd y nifer uchel o unigolion â lefel isel iawn o sgiliau o gymharu ag economïau datblygedig eraill. Ymddengys fod yr anweithgarwch wedi parhau oherwydd nad yw'r rhai sy'n economaidd anweithgar ac yn cael budd-daliadau ar y cyfan yn chwilio am waith, ac efallai nad yw'r cymhellion ariannol yn ddigon atyniadol i'r rhai sydd ar fudd-daliadau uwch.

2.3 Mae llawer o'r farn bod lleihau'r lefel uchel o anweithgarwch economaidd yn fater allweddol yn y maes datblygu economaidd yng Nghymru. Mae cysylltiad cryf rhwng diweithdra a thlodi, ac mae tlodi'n fater sy'n gysylltiedig â sawl problem gymdeithasol fel troseddu, diffyg cyfleoedd a salwch. Roedd helpu mwy o bobl i gael swyddi yn un o'r prif faterion a nodwyd yn "Cymru: Gwlad Well", agenda strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru, a lansiwyd ym Medi 2003.

2.4 Yn sgil y twf araf ym mhoblogaeth y DU a'r cynnydd yn nifer y bobl hŷn, oherwydd bod y genhedlaeth o blant a aned wedi'r ail ryfel byd wedi cyrraedd oedran ymddeol, gallai'r bobl sy'n economaidd anweithgar fod yn ffynhonnell barod o gyflenwad o weithwyr sy'n angenrheidiol i gefnogi'r boblogaeth hon o bobl sy'n heneiddio.

2.5 Mae amrywiaeth o fesurau eisoes yn eu lle yng Nghymru i helpu pobl i gael swyddi ar ôl bod yn economaidd anweithgar:

- Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn darparu nifer o raglenni gwirfoddol y Fargen Newydd drwy'r Ganolfan Byd Gwaith.
- Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi lansio'r rhaglen beilot Llwybrau at Waith yn Rhondda Cynon Taf a Phen-y-bont ar Ogwr, i helpu'r rhai sydd â salwch hirdymor sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio.
- Amrywiaeth o fesurau, sydd â'r nod o wella iechyd cyffredinol ac iechyd galwedigaethol grwpiau penodol o bobl.
- Nifer o fentrau gofal plant sy'n rhoi arian i greu lleoliadau gofal plant. Cânt eu hariannu trwy Cymorth, ac maent yn targedu'r ardaloedd mwyaf difreintiedig.
- Rhaglenni ar gyfer gwella ffigurau cyrhaeddiad ysgolion.
- Rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf i helpu'r cymunedau mwyaf difreintiedig.
- Amrywiaeth o fentrau penodol sy'n cael eu rhedeg gan y Ganolfan Byd Gwaith a'r awdurdodau lleol i oresgyn rhwystrau o ran trafnidiaeth.

2.6 Mae'r Llywodraeth hefyd wrthi'n asesu'r posibilrwydd o gymryd camau pellach trwy ddefnyddio cronfeydd strwythurol yr UE lle bo'n bosibl, ac mae wrthi'n trafod â'r Ganolfan Byd Gwaith a fyddai modd ategu'r prosiect Llwybrau at Waith gan ddefnyddio cronfeydd strwythurol yr UE.

Adran 3

Canfyddiadau Cyffredinol

3. Canfyddiadau Cyffredinol

3.1 Ceir crynodeb o'r ymatebion i'r broses ymgynghori yn Atodiad C.

3.2 Cafwyd amrywiaeth o safbwyntiau, a rhai na fyddai'r Pwyllgor o reidrwydd yn eu derbyn heb fwy o dystiolaeth a chefnogaeth. Fodd bynnag, roeddent yn dangos yn glir ei bod yn bwysig datrys problemau Cymru o ran anweithgarwch economaidd.

3.3 Yn sgil canfyddiadau'r ymgynghoriad, aeth y Pwyllgor ati i ystyried sut i fwrw ymlaen â'r Adolygiad. Dangosodd yr ymgynghoriad fod y pwnc yn un eang sy'n cynnwys llawer o ffactorau cymhleth sy'n gysylltiedig â'i gilydd. Roedd y Pwyllgor yn ymwybodol hefyd nad yw pobl yn deall y ffactorau sydd wrth wraidd y broblem yn llawn. Roedd hi'n debygol mai dim ond rhai o'r ffactorau hyn y gallai'r Pwyllgor fynd i'r afael â hwy yn ei Adolygiad ac felly penderfynodd y dylai ganolbwyntio ar rai meysydd lle gellid gwneud argymhellion ymarferol.

3.4 Un mater pwysig a chyffredinol oedd y galw. Roedd y tystion yn pwysleisio ei bod yn bwysig ystyried cyflenwad a galw wrth fynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd - nid oedd pwynt annog a helpu pobl i ddychwelyd i'r gwaith os nad oedd swyddi ar gael iddynt.

3.5 Ar y llaw arall, wrth gyflwyno ei bapur ar *Godi Cyfraddau Gweithgarwch Economaidd*, dywedodd Llywodraeth Cynulliad Cymru fod yna ardaloedd yng Nghymru lle roedd lefelau uchel o anweithgarwch ochr yn ochr â marchnad lafur leol egnïol. Byddai creu gweithlu atyniadol mewn ardal lle mae lefel yr anweithgarwch yn uchel yn annog cyflogwyr i symud i'r ardal ac felly'n helpu i ysgogi galw. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod bod angen gwneud mwy nag ysgogi galw er mwyn datrys y broblem anweithgarwch, mae'n bwysig annog digon o alw ochr yn ochr â pholisïau i oresgyn rhwystrau eraill i gyflogaeth, yn enwedig mewn cymunedau lle mae'r galw'n isel.

3.6 Gwelwyd bod un thema wedi codi sawl gwaith yn yr adolygiad, sef bod rhai camau gweithredu penodol wedi cael rhywfaint o effaith ar anweithgarwch, ond heb fod o ryw lawer o werth am nad oeddent yn

gamau digon mawr i gael effaith fawr ar economi cyffredinol Cymru. Er bod sail i ddadl o'r fath, rhaid cofio nad oes ateb cyflym i'r broblem anweithgarwch economaidd - pe bai ateb cyflym byddem wedi dod o hyd iddo bellach. Yr hyn sydd ei angen yw newidiadau diwylliannol a newid mewn agweddau mewn amrywiaeth o feysydd. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod ei adolygiad wedi canolbwyntio ar rai materion penodol yn unig. Gwnaeth hynny oherwydd byddai gweithredu yn y meysydd hynny yn gwneud cyfraniad bach ond arwyddocaol i'r gwaith o ddatrys y broblem economaidd fawr sy'n wynebu Cymru.

Adran 4

Trafodaeth ar faterion unigol

4. Trafodaeth ar faterion unigol

Gwybodaeth Ystadegol

4.1 Un o'r themâu a ddeilliodd o'r adolygiad oedd bod diffyg gwybodaeth ystadegol am anweithgarwch economaidd. Ni wnaeth y Pwyllgor fynd ati i archwilio hyn yn fanwl, ond roedd yn ymwybodol bod y wybodaeth a oedd ar gael yn tueddu i fod ar gyfer ardaloedd gweinyddol fel awdurdodau lleol a bod hynny weithiau'n celu'r pocedi llai o amddifadedd o fewn ardal benodol. Yn yr un modd, roedd weithiau'n anodd cael darlun llawn o ardaloedd sy'n cwmpasu mwy nag un awdurdod.

Argymhelliad 1

4.2 Mae'r Pwyllgor yn gwybod bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthi'n cynnal trafodaethau â chyrff fel y Swyddfa Ystadegau Gwladol er mwyn sicrhau y cesglir gwybodaeth well a manylach ar gyfer Cymru. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r gwaith hwn yn frwd. Mae hefyd yn gwybod bod llawer o wybodaeth eisoes ar gael ar lefelau'r ardaloedd cod post a hwyrach y gellir agregu'r wybodaeth er mwyn darparu ffigurau ar gyfer ardaloedd mwy perthnasol. **Mae'n argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dadansoddi ac yn cyflwyno'r wybodaeth sydd eisoes ar gael mewn ffyrdd sy'n dangos dealltwriaeth well am y materion dan sylw a'r atebion posibl.**

Rhwystrau Mewnol ac Allanol

4.3 Un o'r themâu a ddeilliodd o'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor oedd y mathau gwahanol o rwystrau a wynebir gan y rhai sy'n economaidd anweithgar. Roedd y rhwystrau hyn yn perthyn i ddau gategori. Yn gyntaf, roedd rhwystrau 'mewnol' yr unigolyn fel diffyg sgiliau perthnasol a diffyg hyder busnes. Wedyn, roedd rhwystrau 'allanol' fel methu â chael arian a safle ar gyfer gweithgaredd a allai helpu unigolion i ddod yn economaidd weithgar eto.

4.4 Esboniodd Potentia fod polisïau presennol y llywodraeth yn tueddu i ddiystyru'r mân broblemau sy'n gysylltiedig â rhwystrau mewnol, er bod y rhwystrau'n aml yn rhai sylweddol. Dyma rai o'r rhwystrau mewnol a nodwyd gan Potentia:

- Diffyg sgiliau perthnasol a phrofiad busnes.
- Amgylchiadau personol sy'n cyfyngu ar yr unigolyn (yn enwedig prinder gofal da, hyblyg a fforddiadwy ar gyfer rhieni hunan-gyflogedig).
- Diffyg hygrededd yn y byd busnes.
- Diffyg hyder personol a hyder busnes.
- Tueddiad i fod yn ddibynnol ar fudd-daliadau neu grantiau.
- Goresgyn yr agweddau a'r tybiaethau o ran ystrydebau a gwahaniaethau diwylliannol.

4.5 Er y tynnwyd sylw at y diffyg sgiliau fwy nag unwaith ynghyd â'r angen i sicrhau bod y sgiliau hynny'n diwallu anghenion y cyflogwyr, y mater pwysicaf yr oedd angen mynd i'r afael ag ef oedd y diffyg sgiliau meddal. Yn ôl tystion, roedd gwaith tîm, agweddau at waith a chymdeithas, a sgiliau rhifedd a llythrennedd sylfaenol yn arbennig o bwysig.

4.6 Clywodd y Pwyllgor fod rhai pobl sydd wedi'u magu mewn cymunedau lle mae diweithdra'n uchel, yn disgwyl bod yn ddi-waith. Er bod mwy o bobl ar fudd-dâl analluogrwydd mewn cymunedau glo a dur traddodiadol, mae cyfran helaeth ohonynt yn bobl nad oeddent wedi gweithio yn y diwydiannau hynny. Roeddent yn perthyn i'r genhedlaeth nesaf. Dywedodd tystion fod rhai pobl ifanc mewn cymunedau dirwasgiedig yn cymryd yn ganiataol na fyddent byth yn gweithio.

4.7 Gall cyflogwyr a gweithwyr greu eu rhwystrau eu hunain yn sgil eu canfyddiadau a'u rhagfarnau. Yn aml, ni fydd gweithwyr yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt, neu byddant yn teimlo nad yw swyddi penodol yn agored iddynt; tra bod cyflogwyr yn cael argraff negyddol o

ddarpar weithwyr neu'n teimlo nad yw'r sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gael mewn cymunedau penodol. O ran chwalu'r rhwystrau hyn, awgrymodd tystion y gallai creu 50 o swyddi mewn ardal lle ceir anweithgarwch uchel, er enghraifft, godi hyder pobl ac annog llawer mwy i fynd i weithio. Byddai hyn yn fwy buddiol yn y pen draw na chreu 100 o swyddi ar draws Cymru.

4.8 Nodwyd hefyd fod amrywiaeth o rwystrau i fod yn economaidd weithgar. Roedd y rhwystrau'n wahanol i bob unigolyn - ac roedd unigolion yn ymateb i rwystrau a oedd yn ymddangos yn debyg yn wahanol. Felly, roedd angen delio â phawb fel unigolion. Serch hynny, roedd prinder adnoddau yn golygu y gallai fod yn anodd iawn darparu cymorth mor ddwys. Roedd yn amlwg hefyd y byddai angen cefnogaeth y sector preifat yn ogystal â'r sector cyhoeddus i chwalu'r rhwystrau diwylliannol.

4.9 Amlinellodd Potentia rai o'r rhwystrau allanol a oedd yn wynebu cleientiaid wrth iddynt sefydlu busnesau newydd:

- Cael gafael ar gyllid oherwydd diffyg asedau cyfalaf a diffyg profiad.
- Cael gafael ar safleoedd busnes addas am bris rhesymol, yn enwedig ar gyfer pobl sydd am ddatblygu neu symud eu busnesau.
- Cael gafael ar wybodaeth, cefnogaeth a chyngor busnes, yn enwedig wrth ddelio ag asiantwyr busnes.
- Amodau a seilwaith economaidd lleol, yn enwedig ar gyfer busnesau sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwledig a difreintiedig.

4.10 O ran helpu ac annog pobl anweithgar i sefydlu eu busnesau eu hunain, dywedodd Potentia fod yn rhaid i Gymru ddatblygu busnesau 'twf' yn ogystal â busnesau 'bywoliaeth' (hy busnesau a grëwyd i gynnal yr unigolyn dan sylw), sy'n ehangu ac yn creu swyddi i eraill. Pwysleisiodd Potentia hefyd fod angen targedu meysydd penodol lle roedd problemau, a mynd i'r afael â hwy, gan ddweud fod gwaith partneriaeth yn bwysig.

4.11 Dywedodd Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth y Pwyllgor fod prosiect ymchwil Sgiliau Dyfodol Cymru wedi tynnu sylw at ba mor werthfawr yw sgiliau meddal i gyflogwyr. Roeddent o'r farn bod helpu ceiswyr gwaith i feithrin sgiliau generig yn elfen hollbwysig o'r hyfforddiant seiliedig ar waith ar gyfer pobl sydd wedi bod allan o waith ers talwm.

4.12 Disgrifiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd sut yr oedd y Ganolfan Byd Gwaith wedi meithrin cysylltiadau cryf â phartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf mewn rhai ardaloedd, a phwysleisiodd fod angen adeiladu ar y cysylltiadau hyn fel y bo'r pecyn dychwelyd i'r gwaith arfaethedig wedi'i dargedu at unigolion anweithgar sydd wedi colli cysylltiad â'r farchnad lafur. Yn ogystal, hysbyswyd y Pwyllgor bod Awdurdod Datblygu Cymru wedi cytuno y byddai rheolwyr eu cyfrifon yn tynnu sylw cyflogwyr at y cymorth y gallai'r Ganolfan Byd Gwaith ei gynnig iddynt wrth recriwtio staff sy'n economaidd anweithgar.

Argymhelliad 2

4.13 Mae tystiolaeth sylweddol o blaid y dull hwn sy'n 'seiliedig ar bobl', ac mae'r Pwyllgor yn ei gymeradwyo fel sylfaen ar gyfer helpu pobl i gael gwaith. **Mae'n argymell y dylai rhaglenni ganolbwyntio ar oresgyn y rhwystrau mewnol y mae unigolion yn eu hwynebu.** Dylent hefyd ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau meddal drwy fagu hyder a meithrin sgiliau rhyngbersonol. Dylid ymdrechu i annog agwedd bositif ymhlith pobl anweithgar a chyflogwyr.

Argymhelliad 3

4.14 Roedd y Pwyllgor yn pryderu hefyd am yr anawsterau y mae pobl economaidd anweithgar yn eu hwynebu yn sgil rhwystrau allanol, yn enwedig y problemau sy'n deillio o'u diffyg profiad a'r anhawster wrth geisio cael gafael ar y cymorth sydd ar gael. **Mae'n argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru fod yn fwy rhagweithiol wrth sicrhau bod y cymorth sydd ar gael yn cael ei dargedu at y bobl hyn. Mae hefyd yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn nodi ac yn marchnata rhaglenni sy'n adlewyrchu amgylchiadau arbennig pobl ddi-waith, a sicrhau bod staff â'r sgiliau a'r profiad priodol a'r brwdfrydedd ar gael i gyflawni'r rhaglenni.**

Y Gost o Ddychwelyd i'r Gwaith

4.15 Un mater a ddaeth i'r amlwg mewn nifer o drafodaethau oedd y costau sylweddol o ddychwelyd i'r farchnad lafur. Dywedodd tystion wrth y Pwyllgor fod y fagl budd-daliadau yn rhwystr mawr i ddychwelyd i'r gweithle. Mae'n bosibl mai dim ond ychydig yn fwy na'u budd-daliadau arferol y byddai'r gweithwyr yn ei ennill am wythnos o waith, ac felly na fyddent yn elwa rhyw lawer o ddychwelyd i'r gwaith.

4.16 Yn ogystal ag incwm isel, gallai'r rhai sy'n dychwelyd i'r gwaith wynebu costau ychwanegol o ran trafnidiaeth, cinio a dillad yn ystod y pedair i chwe wythnos gyntaf ar ôl dechrau swydd newydd. Gallai hyn fod yn broblem fawr yn enwedig pe bai'n rhaid iddynt aros rhywfaint cyn cael budd-daliadau 'mewn gwaith' fel credydau treth.

4.17 Roedd risg hefyd, pe bai'r swydd yn aflwyddiannus, y byddai'r unigolyn wedi colli budd-dâl ar gyfer y cyfnod hwnnw ac yn gorfod aros i ail-gymhwyso am gymorth ar y un lefel. Soniodd Potentia am y Prosiect Ymarfer Menter, sy'n cynnig pasbort 12 mis yn ôl i fudd-daliadau os nad yw'r busnes newydd yn llwyddo. Serch hynny, nid oes cynllun tebyg ar gyfer y rhai sy'n hawlio Cymhorthdal Incwm. Mae hyn yn golygu bod pobl mewn perygl golli budd-dâl tai a phresgripsiynau am ddim os ydynt yn gweithio mwy na 16 awr yr wythnos.

4.18 Esboniodd Llywodraeth Cynulliad Cymru fod pecyn dychwelyd i'r gwaith yn cael ei dreialu fel rhan o'r rhaglen Llwybrau at Waith, sy'n cynnwys credyd gwaith gwerth £40 yr wythnos am 12 mis. Roedd y cynllun peilot hefyd yn cynnig cymorth hefyd i'r bobl sy'n manteisio ar yr amrywiaeth o ymyriadau 'paratoi am waith' a gynigir gan y Ganolfan Byd Gwaith, fel nad ydynt yn colli eu hawl i gael budd-daliadau neu i fynd yn ôl i dderbyn budd-daliadau os ydynt yn rhoi'r gorau i'r rhaglenni. Ymddengys fod hyn yn gymhelliant i'r bobl sy'n gweld dychwelyd i'r farchnad lafur yn risg mawr – pobl sy'n dioddef salwch, diffyg hunan-barch ac iselder, er enghraifft.

Casgliadau a chrynodeb o'r argymhellion

Argymhelliad 4

4.19 Mae'r Gost o Ddychwelyd i'r Gwaith yn bwnc cymhleth ac ni roddodd y Pwyllgor ystyriaeth fanwl i'r ystod o faterion o dan sylw. Fodd bynnag, roedd y dadleuon o blaid y credyd gwaith gwerth £40 i roi cymorth ariannol a chymhelliant i'r rhai sy'n dychwelyd i'r farchnad lafur, wedi creu argraff ar y Pwyllgor. **Mae'n argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn amodol ar ganfyddiadau'r cynllun peilot, yn pwyso ar yr Adran Gwaith a Phensiynau i gyflwyno cynllun o'r fath.**

Argymhelliad 5

4.20 Roedd y Pwyllgor yn fodlon hefyd â'r cynllun peilot a oedd yn darparu rhwyd ddiogelwch er mwyn annog pobl, yn arbennig pobl sydd wedi bod ar fudd-daliadau ers amser hir, i gymryd y risg allan o roi cynnig ar newid. **Mae'n argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn pwyso ar yr Adran Gwaith a Phensiynau i gyflwyno'r 'pasbort' yn ôl i fudd-daliadau i fwy o bobl, yng ngoleuni canfyddiadau'r cynllun peilot.**

Addysg a Hyfforddiant

4.21 Mae sicrhau bod y cyflenwad yn cyd-fynd â'r galw am sgiliau, a bod addysg a hyfforddiant ar gael, yn faterion pwysig mewn perthynas ag anweithgarwch economaidd. Yn ei bapur *Codi Cyfraddau Gweithgarwch Economaidd,* dywedodd Llywodraeth Cynulliad Cymru mai'r ateb yn y tymor hir oedd sicrhau bod pob person ifanc yn gadael yr ysgol gyda'r sgiliau a'r hyder sydd eu hangen arnynt i lwyddo. Er ei bod yn bwysig gweithredu ym mhob cam o'r broses ddysgu, ymyrryd yn gynnar yw'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau nad yw'r plentyn o dan anfantais nac yn anweithgar yn y dyfodol. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn perthynas â chamau hirdymor i newid agweddau ac atal pobl ifanc rhag bod yn economaidd anweithgar yn y dyfodol.

4.22 Mae'r Pwyllgor yn cymeradwyo'r dull gweithredu hwn ac yn rhoi mwy o sylwadau ar y materion hyn yn yr adran sy'n ymwneud â gofal. Yn

yr adran hon sy'n trafod sgiliau, mae'n canolbwyntio ar y cymorth sydd ar gael i bobl y daeth eu sgiliau'n annigonol wrth i'r economi ddatblygu.

4.23 Pwysleisiodd ELWa fod anweithgarwch economaidd yn broblem sydd wedi gwreiddio'n ddwfn ac yn anodd i'w datrys. Roedd angen mynd ati fesul cam i ystyried y gwahanol fathau o bobl anweithgar. Er bod hyfforddiant sgiliau yn bwysig iawn, cydnabuwyd na fyddai'n datrys y broblem gyfan ar ei ben ei hun. Byddai angen cydweithio ag asiantaethau amrywiol i helpu pobl i fynd yn ôl i ddysgu.

4.24 Clywodd y Pwyllgor fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnal rhaglen beilot rhwng Medi 2002 a Mawrth 2005 i brofi a gwerthuso dysgu am ddim hyd at gymhwyster Lefel 3 ar gyfer gweithwyr a gyflogir yn ardal Llanelli. Fodd bynnag, dywedodd Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth y Pwyllgor nad oedd modd gwarantu hyfforddiant ar gyfer oedolion ac ychydig iawn o arian oedd ar gael i wella sgiliau'r gweithlu presennol. Mae hyfforddiant i helpu gweithwyr heb lawer o sgiliau i symud i fyny'r ysgol gyflogaeth yn bwysig mewn egwyddor, er mwyn lleihau'r risg y bydd pobl yn penderfynu gadael cyflogaeth a chynyddu eu gallu i ennill cyflogau uwch. Dywedodd Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd fod yna ansicrwydd o ran pa mor gost-effeithiol oedd hyfforddiant o'r fath, ac felly ei bod yn bwysig dod o hyd i ffyrdd o gefnogi hyfforddiant i oedolion sydd wedi'i dargedu'n dda ac sy'n gost-effeithiol. Gofynnwyd i ELWa gynnal adolygiad o ddysgu seiliedig ar waith erbyn hydref 2004, ac argymell camau gweithredu a fyddai'n gwella effaith y rhaglenni ac yn helpu pobl i adael anweithgarwch a symud ymlaen i waith ac wedyn i swyddi mwy medrus sy'n talu'n well.

4.25 Er bod yr Aelodau hefyd yn croesawu'r gwaith yr oedd ELWa'n ei wneud i asesu a nodi'r sgiliau sydd ar gael yng Nghymru, ymddengys fod llai o wybodaeth ar gael am y sgiliau sydd eu hangen ar ddiwydiant. Serch hynny, roedd y Pwyllgor yn croesawu pwyslais ELWa ar bwysigrwydd ystyried anghenion y cyflogwyr.

4.26 Roedd yr Aelodau'n croesawu rhaglen ReAct, a luniwyd i helpu gweithwyr sydd wedi colli'u swyddi i feithrin sgiliau newydd, goresgyn rhwystrau a gwella eu cyfleoedd i ddychwelyd i'r gwaith yn gyflym. Roedd hyn yn rhan bwysig o'r broses o fynd i'r afael â diweithdra hirdymor, ac

roedd yn bwysig targedu'r rhai a allai elwa o'r rhaglen mor gynnar â phosibl. Yn ddelfrydol, dylent gael eu targedu yn ystod eu cyfnod rhybudd, er mwyn eu hannog i ymuno â'r rhaglen a symud i swydd newydd mor ddidrafferth â phosibl.

4.27 Ym marn y Pwyllgor, un o'r prif faterion mewn perthynas â sgiliau oedd gofynion hirdymor yr economi a'r angen i fynd ati i sicrhau bod pobl ifanc yn datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ymateb. Rhaid i bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol feddu ar y sgiliau ffurfiol sydd eu hangen arnynt i symud ymlaen i gyflogaeth yn y dyfodol, a rhaid bod ganddynt hefyd y meddylfryd sydd ei angen arnynt i gychwyn gweithio ac aros mewn gwaith. Maent yn cefnogi'r sylw y mae'r Llywodraeth yn ei roi i'r grŵp hwn.

4.28 Roedd yr Aelodau'n credu y dylid rhoi mwy o bwyslais ar gydweithio ag asiantaethau amrywiol gan gynnwys yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol, y Ganolfan Byd Gwaith a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Roedd y Pwyllgor yn croesawu addewidion Llywodraeth Cynulliad Cymru y byddai Awdurdod Datblygu Cymru yn gallu rhoi 'rhybudd ymlaen llaw' o anghenion cleientiaid newydd o ran sgiliau, a chleientiaid sy'n ymestyn eu busnesau, a thrwy hynny helpu'r Ganolfan Byd Gwaith i dargedu pobl sy'n anweithgar ar hyn o bryd a helpu ELWa i gynllunio cymorth dysgu.

4.29 Soniwyd yn yr ymgynghoriad hefyd fod angen mynd i'r afael â chyrhaeddiad addysgol isel ymysg grwpiau pobl anabl a rhai grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig er mwyn eu hatal rhag bod o dan anfantais.

Argymhelliad 6

4.30 Gwyddai'r Aelodau fod cyflogwyr yn ei chael yn anodd dod o hyd i weithwyr medrus yn y sectorau gofal, twristiaeth ac adeiladu. Felly, mae cyfle amlwg yn y sectorau hyn i gynnig hyfforddiant a chymwysterau. **Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru, trwy ELWa os yw'n briodol, yn cynnal rhaglen i annog cyflogwyr yn y sectorau hyn i ddarparu a chefnogi hyfforddiant sgiliau ar gyfer eu gweithwyr trwy gyfrwng rhaglenni dysgu yn y gweithle.**

Argymhelliad 7

4.31 Un mater i'w ystyried oedd y ffaith nad oedd rhaglenni ar gael ym mhob rhan o Gymru. Roedd pryder na fyddai teneurwydd y boblogaeth na pherifferoldeb yn cael ystyriaeth ddigonol yn y system gyllido newydd, ac y gallai hyn roi colegau sydd â llai o fyfyrwyr o dan anfantais. **Rydym yn argymell cynnal dadansoddiad trylwyr i gyfiawnhau unrhyw raglenni penodol er mwyn sicrhau nad yw ffactorau daearyddol yn lleihau'r cyfleoedd sydd ar gael i hyfforddi.**

Argymhelliad 8

4.32 Roedd y Pwyllgor hefyd yn ymwybodol o broblemau tebyg yn sgil niferoedd isel o fyfyrwyr mewn ardaloedd trefol lle gall materion sy'n gysylltiedig ag amddifadedd cymdeithasol ac economaidd ostwng nifer y cyrsiau a'r amrywiaeth o ddewisiadau sydd ar gael. **Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod y ffactorau hyn yn cael eu hystyried wrth bennu'r system ariannu fel y bo cyrsiau ar gael yn yr ardaloedd hyn.**

Trosglwyddo i Gyflogaeth: Marchnadoedd Llafur Trosiannol a'r Sector Gwirfoddol

4.33 Yn sgil yr holl rwystrau mewnol ac allanol sy'n wynebu pobl economaidd anweithgar, dywedodd y tystion fod angen datblygu rhaglenni i'w helpu i drosglwyddo'n ddidrafferth o anweithgarwch i gyflogaeth. Yn benodol, roedd y tystion yn gadarn o blaid cydweithio ag amrywiaeth ehangach o rwydweithiau cymorth yn y gymuned.

4.34 Dywedwyd bod angen symud fesul cam o waith gwirfoddol i waith cydweithredol i fentrau cymdeithasol, ac wedyn ymlaen at fusnes prif ffrwd. Byddai symud gam wrth gam fel hyn yn lleddfu'r pryderon a'r canfyddiadau negyddol sy'n gysylltiedig â'r risg o ddychwelyd i'r farchnad lafur.

4.35 Nododd y cyfranwyr y manteision o ddefnyddio marchnadoedd llafur trosiannol a'r sector gwirfoddol fel ffordd o alluogi a chefnogi pobl yn y gymuned.

4.36 Clywodd y Pwyllgor fod angen i'r polisïau ganolbwyntio mwy ar gymunedau penodol, a chanolbwyntio ar adfywio cymunedol ehangach a theilwra polisïau i anghenion ardaloedd penodol. Dywedodd y tystion fod sefydliadau allanol fel Awdurdod Datblygu Cymru ac ELWa yn aml yn rhy haearnaidd wrth ddelio ag anweithgarwch, ac efallai y byddai sefydliadau cymunedol mewn sefyllfa well i helpu pobl i drosglwyddo o anweithgarwch i gyflogaeth.

4.37 I gefnogi hyn, roedd y Ganolfan Byd Gwaith wedi darganfod ei bod yn fwy effeithiol darparu cynlluniau penodol ar gyfer cymunedau a chyflogwyr yn hytrach na gweithredu'n ddiamcan. Er eu bod yn aml ar y blaen o ran mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd mewn ardal arbennig, roedd y broblem yn rhy fawr i un asiantaeth ar ei phen ei hun ac roeddent bellach yn gwneud mwy o waith ar y cyd ag eraill, fel Awdurdod Datblygu Cymru ac ELWa.

4.38 Pwysleisiodd y tystion hefyd rôl bwysig yr Awdurdodau Lleol wrth weithio ar lefel gymunedol.

4.39 Clywodd y Pwyllgor am yr amrywiaeth eang o gyfleoedd a gynigir gan Farchnadoedd Llafur Trosiannol. Roeddent yn agosach at eu cymunedau, ac felly y ddadl oedd bod ganddynt ddealltwriaeth well am ofynion y cymunedau hynny a'r rhwystrau roeddent yn eu hwynebu. Yn ogystal, gallai prosiectau Marchnadoedd Llafur Trosiannol gael eu targedu at anghenion y farchnad lafur leol, a gallent ddarparu sgiliau pan fo'r sector preifat yn methu neu'n anfodlon darparu hyfforddiant a phan fo prinder yn bodoli o ran sgiliau.

4.40 Dywedodd y tystion hefyd fod yr hyfforddiant a ddarperir gan Farchnadoedd Llafur Trosiannol, hyd yn oed hyfforddiant galwedigaethol, fel pe bai'n annog cleientiaid i ennill sgiliau mwy cyffredinol y gellir eu trosglwyddo y tu hwnt i'r maes hyfforddiant dan sylw. Cydnabuwyd bod sgiliau meddal fel gwaith tîm, rheoli amser a bod yn flaengar; sgiliau craidd fel llythrennedd a rhifedd; a sgiliau bywyd fel rheoli arian, yn rhai o fanteision posibl rhaglen y Marchnadoedd Llafur Trosiannol.

4.41 Clywodd y Pwyllgor hefyd fod y gweithgareddau a'r cymorth a ddarperir gan Farchnadoedd Llafur Trosiannol yn helpu pobl economaidd

anweithgar sy'n dioddef gofid ac iselder efallai oherwydd nad ydynt yn rhan o'r farchnad lafur. Roedd ennill cymwysterau yn ystod y rhaglen yn arbennig o ddefnyddiol.

4.42 Tynnwyd sylw at y manteision posibl i'r gymdeithas yn sgil gweithgareddau'r Marchnadoedd Llafur Trosiannol. Gallent helpu i adfywio cymunedau, darparu gwasanaethau cyhoeddus ychwanegol a gwella'r amgylchedd. Yn ogystal, gallai'r gwasanaethau a ddarperir gan Farchnadoedd Llafur Trosiannol ychwanegu at yr economi leol trwy ategu busnesau yn y sector preifat. Er enghraifft, clywodd yr Aelodau fod gwasanaeth rhentu beiciau *On Track* yn darparu gwasanaeth rhentu beiciau i dwristiaid, a thrwy hynny'n cyfrannu at seilwaith dwristiaeth yr economi leol.

4.43 Yn ogystal â holl fanteision posibl model y Marchnadoedd Llafur Trosiannol, clywodd y Pwyllgor am ei wendidau hefyd. Gallai fod yn anodd recriwtio ymgeiswyr addas i'r rhaglen, gan na all llawer o'r bobl sy'n bell o'r farchnad lafur ddangos y rhinweddau sydd eu hangen arnynt i fod yn rhan o'r rhaglen. Fel y nodwyd eisoes, mae agweddau unigolion yn fater penodol y dylid mynd i'r afael ag ef. Er bod y diwydiant lletygarwch yn cynnig nifer o gyfleoedd ar gyfer ymyrraeth y Marchnadoedd Llafur Trosiannol, roedd cyflogau isel yn tueddu i ladd diddordeb pobl a hynny mewn diwydiant sy'n aml yn brin o staff.

4.44 Clywodd yr Aelodau hefyd y gallai fod yn anodd sefydlu digon o brosiectau, gan fod angen llunio rhaglenni nad ydynt yn symud swyddi o rannau eraill o'r economi. Hefyd, gall rhedeg prosiectau Marchnadoedd Llafur Trosiannol fod yn ddrud, yn dibynnu ar anghenion cleientiaid unigol. Serch hynny, atgoffwyd y Pwyllgor y gallai'r costau hyn gael eu gwrthbwyso i ryw raddau gan fanteision economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol ehangach y rhaglenni.

4.45 Er mwyn i'r Marchnadoedd Llafur Trosiannol fod yn llwyddiannus, rhaid i ardaloedd gael partneriaethau Marchnad Lafur Ganolradd i ddwyn asiantaethau lleol ynghyd i ddatblygu'r mentrau hyn. Fodd bynnag, clywodd y Pwyllgor y gallai fod yn anodd ffurfio partneriaethau Marchnad Lafur Ganolradd mewn rhai ardaloedd yn arbennig - ardaloedd lle mae'r

awdurdodau lleol yn tueddu i weithio ar eu pennau eu hunain yn hytrach na chydweithio ag awdurdodau lleol eraill.

4.46 Ar ôl ystyried cryfderau a gwendidau Marchnadoedd Llafur Trosiannol, archwiliodd y Pwyllgor lwybrau eraill at waith, fel sefydliadau cymunedol eraill. Nodwyd bod y sector gwirfoddol yn cynnig cyfleoedd i symud o anweithgarwch i mewn i waith, trwy ddarparu profiad gwaith mewn amgylchedd diogel a chefnogol.

4.47 Disgrifiodd Canolfan Gydweithredol Cymru i'r Pwyllgor sut yr oedd grwpiau o gwmnïau cydweithredol yn cael eu hannog i gydweithio ar fentrau ailgylchu, gan greu marchnad fewnol trwy gyfrwng integreiddio llorweddol.

4.48 Pwysleisiodd y tystion ei bod yn bwysig datblygu polisi penodol i gefnogi gweithgarwch o'r fath a chymryd camau yn unol â hynny wedyn. Roedd yn bwysig bod y sector cyhoeddus yn defnyddio ei bolisïau caffael mewn ffordd sy'n galluogi busnesau gwirfoddol bach i elwa ohonynt. Roedd y tystion yn dadlau hefyd ei bod yn bwysig symleiddio systemau fel y bo mentrau bach yn gallu cael gafael ar gyllid.

4.49 O ran datblygu busnesau, pwysleisiodd Canolfan Gydweithredol Cymru ei bod yn bwysig gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau tebyg eraill fel Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Menter Gymunedol Cymru, yn ogystal ag Awdurdod Datblygu Cymru ac ELWa, i godi ymwybyddiaeth.

4.50 Mae'r gwaith a wnaed gan Lywodraeth y Cynulliad, y soniwyd amdano yn *Codi Cyfraddau Gweithgarwch Economaidd*, yn awgrymu bod angen ystyried amodau'r farchnad lafur leol yn ofalus wrth gynnal prosesau caffael cyhoeddus a thargedu pobl economaidd anweithgar er mwyn osgoi gorfod symud swyddi. Fodd bynnag, yn ôl Llywodraeth Cynulliad Cymru mae posibilrwydd y gellid ei gwneud yn ofynnol i gontractau sector cyhoeddus gynnwys elfen yn ymwneud â hyfforddiant a recriwtio sydd wedi'i thargedu at bobl leol sy'n ddi-waith neu'n economaidd anweithgar. Roedd Tasglu Caffael Busnes wrthi'n cael ei sefydlu i wneud y broses yn fwy agored a hygyrch.

Argymhelliad 9

4.51 Mae'r Pwyllgor yn cymeradwyo'r farn bod angen datblygu llwybrau ar gyfer symud fesul cam o anweithgarwch i mewn i waith. Gwnaeth gwaith y sector gwirfoddol gryn argraff arnom, ynghyd â'i ddychymyg a'i ymrwymiad. Rydym yn gweld gwerth defnyddio Marchnadoedd Llafur Trosiannol pan fo darpar gleientiaid yn bell o'r farchnad lafur, a phan fo rhaglenni eraill yn annigonol i ddenu neu orfodi pobl i weithio. Er mwyn llwyddo, rhaid targedu'r rhaglenni'n ofalus, a rhaid ystyried eu costau a'r perygl y gall fod yn rhaid symud gweithgareddau presennol. Mae'r Pwyllgor yn cytuno y gallai rhaglenni cymunedol greu amgylchedd mwy cefnogol ar gyfer y rhai sy'n wynebu mwy o risgiau a'r rhai sydd ag ofn dychwelyd i'r farchnad lafur. **Mae'n argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod y rôl allweddol y gall y sector gwirfoddol ei chwarae mewn perthynas â hyn, a bod y sector gwirfoddol yn cael mwy o gefnogaeth i'r gwaith y mae'r sector yn ei wneud i gynnig cam cynnar i mewn i'r farchnad lafur.**

Argymhelliad 10

4.52 Fel y nodwyd uchod, mae'r Pwyllgor yn cymeradwyo'r syniad o roi cyfle i unigolion gael profiad o weithio heb golli budd-daliadau. **Mae'n argymell y dylai'r syniad hwn gael ei ddatblygu ar gyfer rhaglenni yn y gymuned, yn enwedig prosiectau gwirfoddol, er mwyn annog a hwyluso'r amrywiaeth ehangaf bosibl o brofiad gwaith ar gyfer y bobl sydd y tu allan i'r farchnad lafur.**

Argymhelliad 11

4.53 Roedd y Pwyllgor yn pryderu hefyd am yr anawsterau wrth ddatblygu Marchnadoedd Llafur Trosiannol mewn ardaloedd penodol lle mae'r awdurdodau'n tueddu i weithio ar eu pennau eu hunain yn hytrach na chydweithio ag awdurdodau eraill. **Mae'n argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datblygu mecanweithiau i sicrhau mwy o gydweithio rhwng awdurdodau i'r perwyl hwn - yn enwedig yng nghymoedd y De.**

Argymhelliad 12

4.54 **Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried y posibilrwydd o gael Marchnadoedd Llafur Trosiannol i lenwi'r bwlch sy'n bodoli o ran y ddarpariaeth trafnidiaeth a gofal plant mewn cymunedau penodol, y sonnir amdano eisoes yn yr adroddiad hwn.** Ond wrth wneud hynny, mae'n pwysleisio bod yn rhaid i'r ddarpariaeth gofal plant fod o'r un ansawdd uchel â'r gofal y sonnir amdano mewn rhan arall o'r adroddiad hwn, a bod yn rhaid i'r bobl sy'n darparu'r gofal fod wedi derbyn hyfforddiant priodol.

Argymhelliad 13

4.55 Nid yw'r sector gwirfoddol, fel pob sector arall, yn endid statig ac er mwyn helpu i ddatrys problemau Cymru o ran anweithgarwch economaidd, rhaid iddo yntau gael cymorth i ddelio â'r datblygiadau anochel y mae'n eu hwynebu. Roedd y Pwyllgor yn derbyn bod angen mwy o integreiddio llorweddol a fertigol rhwng sefydliadau yn y sector gwirfoddol. Cytunodd hefyd fod angen symleiddio'r broses o ariannu'r sector, a gwella'i ddelwedd yn gyffredinol gan nad yw'n adlewyrchu'r gwaith gwerthfawr y mae'n ei wneud yn y gymuned. **Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydweithio â'r sector gwirfoddol i ddatblygu'r sector fel y bo'n cyflawni'n llawn ei rôl botensial o leihau anweithgarwch economaidd gan roi pwyslais arbennig ar ariannu a gwella delwedd y sector gwirfoddol.**

Gofal

4.56 Nododd y Pwyllgor ar ddechrau'r Adolygiad hwn fod gofal plant yn fater yr oedd angen mynd i'r afael ag ef. Yn ei bapur *Codi Cyfraddau Gweithgarwch Economaidd*, nododd Llywodraeth Cynulliad Cymru fod problemau'n ymwneud â gofal plant a phroblemau eraill sy'n gysylltiedig â gofal yn annhebygol o fod yn ffactor allweddol i esbonio enw gwael Cymru o ran gweithgarwch economaidd. Serch hynny, nododd hefyd y byddai buddsoddiad ychwanegol ar ffurf gofal cymdeithasol yn helpu i gynnal y cynnydd parhaus yng nghyfradd gweithgarwch economaidd rhieni unigol yn arbennig. Yn ogystal, dywedodd Llywodraeth Cynulliad Cymru fod

tystiolaeth gadarn mai ymyrryd yn gynnar yw'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau nad yw'r plentyn o dan anfantais, ac y byddai hynny felly'n debygol o gael dylanwad mawr ar anweithgarwch yn y tymor hirMae ymyrryd yn gynnar yn gallu bod yn ddrud, ac felly mae'n bwysig targedu'r ymyrraeth yn ofalus. Er bod plant o'r cartrefi mwyaf difreintiedig yn cael mantais sylweddol a pharhaol o'r ymyrraeth hon, mae'r dystiolaeth yn awgrymu mai ychydig iawn o fudd a gaiff plant llai difreintiedig, os o gwbl.

4.57 Fel darparwyr gofal plant, dywedodd Tiddlywinks wrth y Pwyllgor mai un o'r rhwystrau i sefydlu a rhedeg gwasanaeth gofal plant oedd y diffyg cymorth i dalu costau cychwynnol a'r diffyg cymorth refeniw parhaus i gynnal y cyfleusterau gofal plant.

4.58 Soniodd eraill ei bod yn anodd cofrestru prosiectau newydd. Dywedodd tystion wrth y Pwyllgor fod y safonau newydd wedi arwain at domen o waith papur, a dywedodd rhai nad oedd yr Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol yn hyblyg iawn am ei bod yn ceisio ymdopi â'i rôl newydd. Fodd bynnag, roedd tystiolaeth bod pethau wedi gwella'n ddiweddar a bod mwy o hyblygrwydd bellach. Ond, roedd pryder bod llawer o unigolion yn dal i benderfynu peidio â sefydlu cyfleusterau gofal plant oherwydd yr holl fiwrocratiaeth yn ystod camau cynnar y broses. Serch hynny, hysbysodd Chwarae Teg y Pwyllgor fod cynllun sy'n cael ei reoli gan Awdurdod Datblygu Cymru, ar y cyd â Chymdeithas Genedlaethol y Gwarchodwyr Plant, wedi helpu pobl i gofrestru busnesau newydd.

4.59 Soniwyd hefyd fod angen codi statws darparwyr gofal plant - y sialens oedd codi ansawdd yr hyfforddiant a gwella cyflogau gan barhau i ddarparu gofal plant fforddiadwy. Roedd angen codi statws gofalwyr i'r un statws ag athrawon, gan fod eu rôl wrth ddatblygu plant yr un mor bwysig. Esboniodd Tiddlywinks fod y sector gwirfoddol wedi'i chael yn anodd iawn cael gafael ar gyllid ar gyfer hyfforddiant, ac mai ychydig o gymorth yr oeddent wedi'i gael gan Asiantaethau'r Llywodraeth fel ELWa.

4.60 Mynegodd y tystion bryderon hefyd am y prinder gweithwyr gofal plant gwrywaidd a allai, ar y cyd â gweithwyr gofal plant benywaidd, fod yn esiamplau da i blant.

4.61 Clywodd yr Aelodau y bu galw cynyddol am feithrinfeydd cyfrwng Cymraeg ymhlith siaradwyr a dysgwyr Cymraeg a oedd am i'w plant gael addysg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Ymddengys fod recriwtio staff dwyieithog yn anodd, yn rhannol oherwydd bod diffyg hyfforddiant dwyieithog ar gyfer gweithwyr gofal.

4.62 Dywedodd Chwarae Teg wrth y Pwyllgor fod ganddynt dystiolaeth gadarn fod rhieni plant sydd ag anableddau neu anghenion arbennig am i'w gofal gael eu prif ffrydio lle bynnag y bo modd, er bod angen sgiliau arbenigol ar weithwyr gofal i wneud hyn. Roedd rhai enghreifftiau o gynlluniau da, fel y cynllun Step-to-Step yn rhanbarth Castell-nedd Port Talbot sy'n darparu gofal prif ffrwd i blant ag anghenion arbennig tan eu bod yn 16 oed. Fodd bynnag, nid oes cymwysterau cydnabyddedig ar gyfer gofalwyr yn y maes hwn, ac ni allai'r cyflogau gyfateb i'r sgiliau ychwanegol hyn. Dyma un o'r meysydd y mae'r Pwyllgor yn rhoi blaenoriaeth iddo. Roedd yn cydnabod y costau uwch o ddarparu hyfforddiant ar gyfer gofalwyr plant ag anghenion arbennig. Efallai y byddai ymgorffori'r math hwn o hyfforddiant arbenigol fel modiwl yn yr hyfforddiant arferol i ofalwyr yn helpu i'w brif ffrydio.

4.63 Dywedodd y tystion wrth yr Aelodau fod llawer o'r gofal plant yn cael ei ddarparu'n 'anffurfiol' (hy gan y teulu neu ffrindiau), a bod angen sicrhau cefnogaeth a chyfle i hyrwyddo hyn. Mynegwyd pryder hefyd am safonau a'r perygl y gallai trefniadau anffurfiol droi'n anghyfreithlon.

4.64 Dywedodd Chwarae Teg fod y ddadl gyhoeddus am y ddarpariaeth gofal plant yn canolbwyntio'n bennaf ar feithrinfeydd gofal dydd, ond hefyd fod prinder difrifol o warchodwyr plant cofrestredig, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac yng Nghymoedd y De lle'r oedd problem yn bodoli eisoes o ran prinder cyfleusterau gofal dydd. Roedd pryder arbennig mai'r ardaloedd tlotaf a'r ardaloedd lle mae'r ddarpariaeth yn brin yw'r ardaloedd lle mae'r galw amdanynt fwyaf. Awgrymodd Chwarae Teg fod angen dod o hyd i amrywiaeth o atebion ar gyfer teuluoedd unigol, a bod angen i'r sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol gydweithio ar hyn.

4.65 Dywedodd Canolfan Gydweithredol Cymru wrth y Pwyllgor fod tri chwmni cydweithredol gofal plant yng Nghymru ar hyn o bryd, a bod eu llwyddiant yn dibynnu ar gael nifer benodol o blant i ddefnyddio'r

gwasanaeth. Yn debyg i sefyllfa Tiddlywinks, roedd y diffyg cyllid cychwynnol a'r elw isel yn achosi rhai o'r prif anawsterau yr oedd cwmnïau cydweithredol yn eu hwynebu wrth geisio darparu cyfleusterau gofal plant.

4.66 Soniwyd am ofal 'cofleidiol' sef hy gofal cyn ac ar ôl yr ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol. Dywedodd y tystion mai ychydig iawn o gynnydd a wnaed mewn perthynas â'r mater hwn. Clywodd yr Aelodau ar ddechrau'r Adolygiad fod tystiolaeth gadarn yn dangos fod Clybiau ar ôl ysgol a Chlybiau Gwyliau yn gwella cyrhaeddiad academaidd y disgyblion yn ogystal â'u sgiliau meddal. Ychwanegodd Tiddlywinks eu bod yn cynnig y math hwn o ofal trwy ei Glybiau Brecwast a'i Glybiau ar ôl ysgol, a bod y galw amdanynt yn uchel iawn. Pwysleisiwyd yr angen cynyddol am batrymau gwahanol o ofal plant wrth i batrymau gwaith newid i gyd-fynd ag 'oriau agor 24 awr' a gwaith shifft.

4.67 Cyflwynwyd nifer o atebion posibl i'r Aelodau. Clywodd y Pwyllgor fod trefniadau gweithio hyblyg, fel oriau gweithio rhan-amser ac oriau hyblyg, yn gallu helpu pobl i ofalu am eraill. Fodd bynnag, er bod cwmnïau mawr yn aml yn gallu cynnig patrymau gwaith hyblyg a chymorth ar gyfer materion gofal eraill, nid oedd mor hawdd i Fusnesau Bach a Chanolig (BBaCh). Roedd perygl felly y gallai hyn greu problem fwy yn y cymoedd lle'r oedd mwy o fusnesau bach ar gyfartaledd.

4.68 Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod cyfleusterau gofal plant yn agos at y gweithle yn fath arbennig o werthfawr o gymorth. I rai rheini, roeddent yn atyniadol am eu bod yn lleihau'r amser yr oeddent hwy â'u plentyn yn ei dreulio ar wahân i'w gilydd ac yn sicrhau eu bod wrth law os byddai eu hangen yn ystod y dydd. Roedd tystiolaeth hefyd fod y math hwn o gyfleuster yn werthfawr i gyflogwyr fel ffordd o gadw staff medrus ac y byddai, mewn sawl achos, yn werth y buddsoddiad yr oedd yn rhaid ei wneud.

4.69 Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r sylw y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i roi i'r mater hwn yn sgil lansio adolygiad y Pwyllgor a sefydlu'r Gweithgor Gofal Plant o dan arweiniad Dr Brian Gibbons.

4.70 Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod angen cynyddu nifer y lleoliadau gofal plant yng Nghymru, yn enwedig yng nghymunedau'r cymoedd a bod

angen dull newydd a mwy hyblyg o ddarparu'r gofal hwn. Serch hynny, y brif neges a gafwyd oedd nad oes ateb syml i'r broblem ac yn arbennig bod yn rhaid annog y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i gydweithio i ddiwallu'r angen hwn.

Argymhelliad 14

4.71 Rhaglen gydlynol o ymyriadau yn ystod y blynyddoedd cynnar cyn yr ysgol sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf ar anweithgarwch economaidd yn y tymor hir. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod y potensial mawr a'r ddadl gref o blaid cynyddu'r cyllid ar gyfer rhaglen gydlynol o ymyriadau cyn yr ysgol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn croesawu cydnabyddiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru na fydd ei hymrwymiad i agor un ganolfan blant ym mhob awdurdod lleol yn diwallu'r angen yn llawn.

4.72 Yn sgil hyn, mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai'r buddsoddiad yn y blynyddoedd cynnar gael ei dargedu at blant mewn cymunedau difreintiedig, a dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu cyllid i agor canolfan blant ym mhob cymuned ddifreintiedig ledled Cymru fel y cam cyntaf tuag at ddarpariaeth i bawb. Mae'r Pwyllgor yn ystyried hefyd y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddatblygu'r fframwaith monitro a gwerthuso ar gyfer y dyfodol ymhellach, a meincnodi pa mor effeithiol yw'r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar yng Nghymru o'i chymharu â chynlluniau mewn gwledydd eraill.

4.73 Mae'n amlwg bod angen cynyddu'r ddarpariaeth gofal plant yn sylweddol. **Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn mynd ati'n weithgar i hyrwyddo hyn, ac yn arbennig, y dylai dargedu'r ardaloedd hynny lle mae'r angen fwyaf.** Er nad gwaith ar gyfer pobl economaidd anweithgar yn unig yw hwn, mae'n gyfle i ddarparu gwaith hirdymor i bobl o'r fath, cyn belled â'u bod yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddarparu gofal o ansawdd uchel neu'n gallu meithrin y sgiliau hynny. Trwy hynny, byddent hefyd yn rhoi cyfle i eraill fod yn economaidd weithgar. Nododd y Pwyllgor â diddordeb y cynllun peilot Gofal Plant Ysgolion Bro yn Nhor-faen, a dywedodd ei fod yn gobeithio y byddai'n ffynhonnell wybodaeth werthfawr am y mater.

4.74 Mae sawl maes amlwg lle gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynorthwyo. Yn gyntaf, gyda chymorth ariannol ar gyfer sefydlu a rhedeg busnes bach, yn enwedig yn yr ardaloedd tlotaf lle mae prinder gofal plant fforddiadwy. Yn ail, gyda chymorth i fodloni gofynion ychwanegol ac angenrheidiol y drefn rheoleiddio sydd ar waith yn y sector hwn.

Argymhelliad 15

4.75 Ochr yn ochr â'r rhain ac er ein bod yn ymwybodol bod y baich biwrocrataidd wedi lleihau'n ddiweddar, **rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn mynd ati i weld a oes modd lleihau'r baich ymhellach gan gynnal y mesurau diogelu sy'n ofynnol gan rieni.**

Argymhelliad 16

4.76 Mae gwaith a brwdfrydedd y sector gwirfoddol yn y maes hwn wedi creu cryn argraff ar y Pwyllgor, ac **rydym yn argymell bod y Llywodraeth yn hyrwyddo ac yn annog darpariaeth gofal plant gan Farchnadoedd Llafur Trosiannol, lle nodwyd bod angen darpariaeth gofal plant ac na all y farchnad gynnal darpariaeth breifat.**

4.77 Dylai'r cyfleoedd ar gyfer y sector gwirfoddol a'r Marchnadoedd Llafur Trosiannol gael eu hystyried hefyd wrth ddarparu hyfforddiant i ofalwyr yn y proffesiwn gofal plant.

Argymhelliad 17

4.78 Mae angen defnyddio mwy o ddychymyg a hyblygrwydd wrth ystyried y ffordd y mae'r ddarpariaeth gofal plant yn diwallu anghenion rhieni. Mae'n amlwg bod gofal cofleidiol yn werthfawr iawn i rieni - a hefyd i'r plant am nad oes angen trosglwyddo'r plentyn o'r naill berson i'r llall yn ystod y dydd. Mae angen hybu cyfleusterau cyfrwng Cymraeg. **Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried yr ystod lawn o ofal plant a ddarperir, gan gynnwys y ddarpariaeth ar ôl ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol ar gyfer plant hŷn, ac yn ystyried sut y gellir ei wella er mwyn diwallu anghenion y rhieni'n well.**

Argymhelliad 18

4.79 Un o ofynion y rhieni yw bod gofal plant yn gysylltiedig â'r gweithle, ac er na wnaeth y Pwyllgor ymchwil ar y pwnc hwn, roedd yn siomedig clywed mai ychydig iawn o gwmnïau yn y sector preifat sy'n cynnig darpariaeth o'r fath. **Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Awdurdod Datblygu Cymru, neu bwy bynnag fydd yn cymryd ei le, yn cydweithio â chwmnïau i godi eu hymwybyddiaeth am fanteision cyfleusterau o'r fath, a chynnig cymhellion er mwyn eu hannog i fuddsoddi ynddynt.**

4.80 **Rydym yn argymell hefyd fod Awdurdod Datblygu Cymru yn mynd ati i chwilio am ffyrdd o ddod â chwmnïau a darparwyr gofal plant sector preifat at ei gilydd i ddatblygu ac ehangu'r math hwn o ddarpariaeth mewn ardaloedd diwydiannol.**

4.81 Maes mwy cymhleth o lawer yw anghenion plant anabl a phlant sydd ag anghenion arbennig. Ni wnaeth y Pwyllgor archwilio'r maes hwn yn fanwl, ond cred ei fod yn faes y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi blaenoriaeth iddo.

Trafnidiaeth

4.82 Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn pryderu ar ddechrau'r adolygiad am y rhwystrau i weithio o ganlyniad i ddiffyg trafnidiaeth, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac yn y cymoedd. Gall y problemau hyn fod yn waeth i unigolion sy'n gweithio patrymau shifft gwahanol neu bobl sy'n teithio i ystadau diwydiannol y tu allan i'r trefi. Gall problemau trafnidiaeth waethygu os na all pobl symud ty - yn enwedig pobl sy'n gaeth i dai isel eu gwerth mewn ardaloedd cymharol anghysbell.

4.83 Pwysleisiodd y Gymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol (CTA) bod yn rhaid deall anghenion cymunedau er mwyn i gynlluniau trafnidiaeth lwyddo. Roeddent o'r farn bod cynlluniau trafnidiaeth yn ffordd bwysig o ymdrin â gwendidau yn y ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus, a bod angen datblygu llwybrau mwy hyblyg.

4.84 Soniodd y Gymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol am yr anawsterau wrth ddarparu trafnidiaeth gymunedol a bod yn rhaid dibynnu ar yrwyr gwirfoddol, yn enwedig lle'r oedd angen darparu trafnidiaeth i bobl sy'n

gweithio oriau anghymdeithasol. Serch hynny, pwysleisiwyd bod y rhan fwyaf o'r gyrwyr yn cael eu talu, a bod hyn o fudd i'r gymuned o ran swyddi lleol. Roeddent hefyd o'r farn bod cyllid yn rhwystr mawr wrth geisio sefydlu cynlluniau, gan fod angen iddo bara 3-5 mlynedd er mwyn bod yn effeithiol.

4.85 Soniwyd bod angen creu partneriaethau, yn enwedig gyda'r llywodraeth, er mwyn datblygu mentrau yn y gymuned.

4.86 Dywedwyd hefyd fod angen darparu mwy na thrafnidiaeth gyhoeddus yn unig, a bod angen canfod atebion creadigol i'r broblem, fel annog pobl i rannu ceir a mynd ar feic. Wrth feddwl am atebion i'r broblem, roedd y tystion yn ymwybodol o'r cyfyngiadau wrth fodloni polisïau trafnidiaeth werdd.

4.87 Esboniodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ei fod yn cynnal prosiect sydd â'r nod o ddarparu trafnidiaeth i bobl economaidd anweithgar a phobl ifanc sydd heb lawer o sgiliau a hyder, na llawer o bosibiliadau o ran swyddi. Roedd y cynllun yn prydlesu cerbydau i unigolion er mwyn iddynt deithio i waith sy'n amhosibl ei gyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus. Roedd hefyd yn galluogi pobl ifanc na chafodd fawr o gyfle yn yr ysgol, neu'r rhai a oedd yn ymhél â throsedd, i gymryd rhan mewn rhaglen addysg ymarferol i atgyweirio a chynnal a chadw cerbydau'r cynllun. Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a chyllid Amcan Un yn cefnogi'r cynllun ar hyn o bryd, ond yn y tymor hir hwyrach y byddai'r byrddau iechyd lleol a'r gwasanaethau cymdeithasol yn cyfrannu ato hefyd.

4.88 Roedd adroddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru *Codi Cyfraddau Gweithgarwch Economaidd* yn awgrymu mai dim ond cyfraniad bach y byddai'r gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus yn ei wneud i leihau anweithgarwch. Roedd yn bwysig meithrin cysylltiadau â'r awdurdodau lleol a'r cwmnïau trafnidiaeth er mwyn sicrhau bod anghenion ceiswyr gwaith yn cael eu diwallu, er enghraifft trwy ddarparu gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus boddhaol ar hyd y prif goridorau cymudo.

4.89 Mae'r Pwyllgor yn cydnabod ei bod yn annhebygol bod trafnidiaeth ynddo'i hun yn rhwystr mawr i gyflogaeth, oherwydd y lefelau uchel o

anweithgarwch mewn ardaloedd canol dinas ac yn y cymoedd. Fodd bynnag, mae'n gwybod hefyd fod rhwystrau cymharol fach yn atal trafnidiaeth rhag bod ar gael, a gall hyn gael effaith sylweddol ar unigolion mewn cymunedau. Er y gellid dadlau bod gwasanaethau trafnidiaeth gwael yn fwy perthnasol i amddifadedd cymdeithasol, ni ellir ystyried yr agwedd hon ar ei phen eu hun. Mae goblygiadau ehangach i'r gymdeithas yn sgil problemau o'r fath, a gallant gyfrannu at anfantais a golygu bod anweithgarwch economaidd yn parhau. Er bod galw'n aml am fesur y gwasanaethau trafnidiaeth o safbwynt anghenion cefn gwlad oherwydd yr anawsterau sy'n wynebu ardaloedd tenau eu poblogaeth, mae'r Pwyllgor yn gwybod bod materion difrifol iawn o ran trafnidiaeth i'w datrys yng nghymoedd y De hefyd. Mae trafnidiaeth gymunedol eisoes yn dylanwadu ar y rhain, a hoffai'r Pwyllgor weld hyn yn cael ei ddatblygu ymhellach.

Argymhelliad 19

4.90 Mae rhai ffyrdd syml o wella'r ffordd y gall trafnidiaeth helpu pobl i fynd i'r gwaith, fel adolygu amserlen y gwasanaethau - mewn rhai ardaloedd mae'r gwasanaethau bysiau yn dod i ben yn rhy gynnar i bobl sy'n cymudo i'r gwaith. Os yw ystyriaethau masnachol yn golygu nad oes modd newid llawer arnynt, dylid ystyried cydgysylltu amserlenni trafnidiaeth gyhoeddus ac amserlenni trafnidiaeth gymunedol. **Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn chwilio am ffyrdd o feithrin cysylltiadau rhwng cynlluniau trafnidiaeth gyhoeddus a'r sector preifat er mwyn darparu gwasanaeth sy'n diwallu anghenion y cwsmeriaid yn well - yn enwedig anghenion pobl sy'n dychwelyd i'r gwaith.** Nododd y Pwyllgor â diddordeb y gwaith treialu y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud ar Gynlluniau Teithio fel ffordd o fynd i'r afael â'r materion hyn.

Argymhelliad 20

4.91 Dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ystyried y manteision economaidd ehangach o gael system drafnidiaeth effeithiol a rôl trafnidiaeth gymunedol yn hyn o beth. Gall helpu pobl i deithio i'r ysbyty ac i'r feddygfa, drwy ddarparu trafnidiaeth gymunedol, arbed costau i'r GIG gan fod llai o bobl yn colli apwyntiadau a gall helpu pobl i fynd yn ôl i weithio'n gynt. Yn ogystal, gall y cynlluniau trafnidiaeth fod yn ffynhonnell

bwysig o waith ar gyfer y gymuned leol. Mae mantais wirioneddol felly i Lywodraeth y Cynulliad yn sgil datblygu'r cynlluniau hyn a bydd yn gwneud arbedion ariannol o ganlyniad. **Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried sut i roi cymorth mwy gweithredol ar gyfer trafnidiaeth gymunedol er mwyn cyflawni'r arbedion uniongyrchol hyn.**

Argymhelliad 21

4.92 Un maes lle gall Llywodraeth Cynulliad Cymru helpu yw mewn perthynas ag ariannu. Mae ariannu'n bryder mawr i fudiadau trafnidiaeth gymunedol - yn arbennig cysondeb y cyllid. Dylid ystyried trefniadau ariannu amgen er mwyn darparu sail hirdymor a mwy sefydlog ar gyfer y sector hwn. Yn amlwg, dim ond i ryw raddau y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru ddatrys y broblem hon, a hynny drwy gyfrwng Cytundebau Lefel Gwasanaeth a chyllid Cymunedau yn Gyntaf. Gallai partneriaethau a/neu nawdd cwmnïau preifat hefyd helpu i fynd i'r afael â'r pryderon o ran ariannu. **Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnal adolygiad manwl o'r opsiynau ariannu sydd ar gael ar gyfer y sector gwerthfawr hwn.**

Argymhelliad 22

4.93 Un awgrym gwreiddiol, a fyddai'n ymwneud â mwy o drafnidiaeth gymunedol, oedd y dylai awdurdodau lleol ganiatáu i gynlluniau trafnidiaeth gymunedol ddefnyddio eu fflyd o gerbydau pan nad oeddent yn cael eu defnyddio ar gyfer gwasanaethau arferol. Ymddengys hon yn ffordd werthfawr a synhwyrol o ddefnyddio'r adnoddau hyn **ac argymhellwn fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydweithio â mudiadau trafnidiaeth gymunedol ac awdurdodau lleol i ystyried sut y gellir cyflawni hyn.**

Gofal iechyd

4.94 Un o nodweddion allweddol y lefel uchel o anweithgarwch economaidd yng Nghymru yw'r nifer fawr o bobl sy'n ddi-waith ac sy'n dioddef salwch hirdymor. Awgrymwyd y gallai'r Pwyllgor ystyried beth

oedd agweddau'r meddygon at roi nodiadau salwch i'w cleifion, ac a oedd unrhyw faterion yn dylanwadu ar anweithgarwch economaidd.

4.95 Dywedodd Cymdeithas Feddygol Prydain (BMA) wrth y Pwyllgor fod y ffactorau y tu cefn i'r nifer fawr o bobl sy'n absennol o'r gwaith oherwydd salwch yn gymhleth. Yn eu plith roedd yr amser y gall bobl fod yn ei dreulio yn aros am driniaeth neu archwiliadau yn yr ysbyty, amharodrwydd cyflogwyr i adael i weithwyr ddod yn ôl i'r gwaith ar ddyletswyddau ysgafn neu lai o ddyletswyddau a lefel y salwch cronig mewn rhannau arbennig o Gymru. Yn ogystal, roedd yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn ei chael yn anodd asesu pob person sâl a dim ond traean o'r rhai a gyfeirir at y DWP oedd yn cael eu hasesu mewn gwirionedd. Byddai modd gwella'r sefyllfa'n sylweddol drwy gynyddu nifer yr arbenigwyr iechyd galwedigaethol sydd ar gael.

4.96 Mewn perthynas â nifer y bobl sy'n cael eu trosglwyddo o fudd-dâl diweithdra i fudd-dâl salwch, dywedodd y BMA fod mwy o gywilydd yn ymwneud â bod yn ddi-waith na bod yn sâl am gyfnod hir.

4.97 Clywodd y Pwyllgor fod sefyllfa gref y farchnad lafur leol wedi cael effaith fawr ar anweithgarwch economaidd, gan fod rhai cwmnïau'n gallu cynnig swyddi gwahanol ac ysgafnach i helpu pobl i ddod yn ôl i'r gwaith, tra oedd cwmnïau eraill yn methu. At hynny, mewn ardaloedd lle roedd amrywiaeth o swyddi ar gael, roedd gan bobl fwy o gyfle i ddod o hyd i swydd newydd sy'n gweddu'n well i'w sefyllfa. Yn yr un modd, er bod cwmnïau mawr yn aml yn gallu cynnig trefniadau hyblyg ar gyfer pobl a fyddai fel arall yn dewis anweithgarwch, roedd nifer y cwmnïau o'r fath yn fach iawn mewn ardaloedd lle roedd llawer o anweithgarwch.

4.98 Dywedodd y BMA fod swyddogion iechyd cyhoeddus mewn sefyllfa well na meddygon teulu i hybu camau iechyd ataliol, am mai'r ffactorau allweddol i wella iechyd galwedigaethol oedd tai gwell, addysg well a mwy o ymarfer corff. Nid oedd y rhain ymysg cyfrifoldebau ac arbenigeddau meddygon teulu. Serch hynny, roeddent yn cytuno y gallai gwell hyfforddiant iechyd galwedigaethol ar gyfer meddygon teulu wella'r prosesau ar gyfer annog pobl i fynd i weithio.

4.99 Ond nid yw Meddygon Teulu wedi cael hyfforddiant sylweddol mewn iechyd galwedigaethol, ac nid oes ganddynt yr amser na'r gallu i ymdrin â materion yn ymwneud â'r gwaith yn y feddygfa. Felly dim ond i ryw raddau y gall meddygon teulu ddylanwadu ar allu pobl economaidd anweithgar i gael gwaith. Er hyn, mae ganddynt ran i'w chwarae ar y cyd ag eraill i wella'r lefelau anweithgarwch economaidd yng Nghymru. Mae angen darparu mwy o ofal iechyd ataliol, ar y lefel fwyaf sylfaenol yn aml, fel tai, addysg ac ymarfer corff , er mwyn galluogi pobl i wella eu sefyllfaoedd eu hunain a'u hatal rhag mynd yn anweithgar.

4.100 Roedd y Pwyllgor yn croesawu cynigion Llywodraeth Cynulliad Cymru tua diwedd yr Adolygiad ar gyfer treialu gwasanaeth cyngor ar iechyd ar ffurf pecyn cynhwysfawr ar gyfer dychwelyd i'r gwaith. Roedd y Pwyllgor hefyd yn croesawu cynigion i wella iechyd pobl sydd â salwch sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio yn ogystal â phobl a allai orfod rhoi'r gorau i weithio oherwydd problemau iechyd. Roedd y cynigion yn ymwneud ag ymchwilio i arferion meddygon teulu, darparu mwy o wybodaeth i feddygon teulu, a gwasanaethau allgymorth mewn meddygfeydd.

4.101 Mae meddygon teulu mewn sefyllfa anodd. Ar y naill law, mae ganddynt berthynas gyfrinachol â'u cleifion, sy'n ymddiried ynddynt. Ar y llaw arall, mae ganddynt gyfrifoldeb i dystio ar sail feddygol na all y person weithio. Cwyd y broblem nid wrth roi nodyn salwch ar gyfer y person, ond pan fo amheuaeth neu anghytundeb ynghylch a yw'r person mewn gwirionedd yn sâl. Dyma graidd y broblem sy'n codi mewn perthynas â salwch hirdymor. Mae'r broblem yn codi am fod pobl yn cael eu rhannu'n ddau gategori - rhai sy'n gallu gweithio, rhai sydd ddim yn gallu gweithio. Mewn gwirionedd, mae angen mynd trwy gyfres o gamau er mwyn symud o fod yn absennol oherwydd salwch i fynd yn ôl i weithio. Yn aml, yr hyn sydd ei angen yw proses raddol ar gyfer mynd yn ôl i fod yn gwbl weithgar, er mwyn ailgodi hyder ac ailddatblygu sgiliau pobl. Teimla'r pwyllgor y byddai agwedd fwy sensitif yn fanteisiol i unigolion ac i'r economi'n gyffredinol.

Argymhelliad 23

4.102 Un mater a ddaeth i'r amlwg yn yr adolygiad oedd fod angen mwy o arbenigedd 'galwedigaethol' wrth asesu ffitrwydd pobl i fynd i weithio.

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydweithio â llywodraeth y DU i ddatblygu ffyrdd mwy sensitif ac effeithiol o asesu ffitrwydd pobl i weithio. Dylai'r rhain ddarparu ar gyfer galluogi arbenigwyr galwedigaethol i gynnal asesiadau rheolaidd ar bobl sy'n perthyn i'r categori 'ddim yn gallu gweithio', er mwyn sicrhau y gallant ddychwelyd i fod yn economaidd weithgar lle bo modd.

4.103 Mae angen i'r Adran Gwaith a Phensiynau gynyddu nifer y gweithwyr iechyd galwedigaethol sydd ar gael i asesu pobl sâl a darparu'r arbenigedd a'r cyngor sydd ei angen arnynt i'w helpu i ddychwelyd i'r gwaith.

4.104 Dylai hyn gynnwys gwella'r berthynas waith rhwng meddygol teulu a'r DWP a gwella'r ddealltwriaeth am eu gwahanol rolau, yn arbennig ymysg cleifion. Byddai hyn yn dileu'r argraff ymysg cleifion bod y DWP yn eu hanfon at y meddyg er mwyn cael nodyn salwch yn unig. Hwyrach y gellid creu ffurflen gyfeirio syml ar gyfer y DWP, fel y bor claf a'r meddyg teulu yn ymwybodol mai diben y gyfeireb oedd i'r meddyg archwilio'r claf, ac nid i roi nodyn salwch yn unig.

4.105 Ochr yn ochr â hyn, dylid ystyried gwella'r hyfforddiant iechyd galwedigaethol fel rhan o hyfforddiant meddygon teulu. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod na fydd hyn yn hawdd, o ystyried yr amserlen hyfforddi ddwys sydd eisoes yn wynebu meddygon teulu.

Argymhelliad 24

4.106 Nid mater meddygol yn unig yw'r mater hwn. Mae tystiolaeth gadarn yn dangos fod cysylltiad agos rhwng gofid ac iselder a diweithdra ac anweithgarwch economaidd hirdymor. I fynd i'r afael â'r broblem hon, mae angen buddsoddi mwy yn y driniaeth sydd ar gael, drwy gyfrwng gwasanaethau meddygol a gwasanaethau cynghori. **Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn chwilio am ffyrdd i ddatblygu a gwella'r gwasanaethau hyn.**

Argymhelliad 25

4.107 Mae angen hefyd defnyddio arbenigwyr iechyd galwedigaethol yn amlach o fewn cymunedau a busnesau. Gyda chymorth a hyblygrwydd gall busnesau, yn aml, gadw staff medrus a phrofiadol sy'n sâl neu sy'n methu dod i'r gwaith am ba bynnag reswm. Y broblem yw fod busnesau, yn aml, yn methu ymdopi ag anawsterau tymor byr o'r fath, ac mae'r Pwyllgor yn annog cyflogwyr i ystyried y defnydd a wneir ohonynt a'r manteision posibl o ddefnyddio gwasanaethau arbenigol yn y maes hwn. **Mae'n argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn adolygu'r gwasanaethau iechyd galwedigaethol yng Nghymru a'r gwaith a wneir i godi ymwybyddiaeth amdanynt ymysg cyflogwyr.**

Argymhelliad 26

4.108 Mae mater penodol yn codi mewn perthynas â mentrau bach a chanolig sydd heb ddigon o adnoddau, o bosibl, i ddarparu amrywiaeth eang o wasanaethau iechyd galwedigaethol i'w gweithwyr. Ni allant 'chwaith gynnig yr amrywiaeth o swyddi i alluogi pobl sydd wedi bod yn absennol o'r gwaith oherwydd salwch yn ddiweddar i ddychwelyd i'r gweithle. Mae'r diffyg gofal iechyd ataliol a'r diffyg cyfleoedd i ddychwelyd i'r gwaith yn golygu ei bod yn fwy tebygol y bydd gweithwyr yn mynd yn anweithgar. O ystyried mai busnesau bach a chanolig sy'n darparu swmp y swyddi yng Nghymru, **argymhella'r Pwyllgor bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried ffyrdd o ddarparu'r gwasanaethau iechyd galwedigaethol ar gyfer busnesau bach a chanolig.**

Atodiadau

Atodiad A

Llythyr gan y Cadeirydd yn gwahodd ymatebion i'r ymgynghoriad

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

Eich cyf / Your ref
Ein cyf / Our ref

12 Rhagfyr 2003

Anweithgarwch Economaidd

1. Ar gyfer ei adolygiad polisi arfaethedig mae'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth wedi dewis edrych i mewn i lefel uchel anweithgarwch economaidd Cymru. Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 22 Hydref, trafodwyd papur a baratowyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (EDT2 05-03(P3) Codi lefelau gweithgarwch economaidd), sy'n nodi cefndir y materion perthnasol ac sy'n trafod rhai o'r ffactorau gwaelodol a'r ystyriaethau polisi.

2. Dyma fydd cylch gorchwyl yr adolygiad:

Ystyried:

i. lefelau uchel anweithgarwch economaidd Cymru a'r ffactorau sy'n waelodol iddynt;

ii. y polisïau i godi lefelau'r gweithgareddau economaidd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ac asiantaethau eraill yn ymgymryd â hwy.

gwneud argymhellion ar gyfer datblygu polisi yn y maes hwn.

3. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu cyflwyniadau ysgrifenedig o dystiolaeth oddi wrth bartïon â diddordeb mewn perthynas â'r materion hyn. Ar ôl ystyried y rhain, efallai y bydd y Pwyllgor yn gwahodd rhagor o dystiolaeth lafar.

4. Os byddwch am gyfrannu, dylid anfon cyflwyniadau ysgrifenedig, yn ddwyieithog os oes modd, drwy'r e-bost at Economic.com@Wales.gsi.gov.uk neu fel copi caled at:

Paul Davies
Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

i gyrraedd erbyn dydd Gwener 6 Mawrth 2004.

5. Yn unol ag ymrwymiad y Cynulliad Cenedlaethol i fod yn agored, byddwn yn rhoi copïau o'r ymatebion ysgrifenedig yn llyfrgelloedd y Cynulliad Cenedlaethol a bydd modd i'r cyhoedd ofyn i'w gweld. A fyddech cystal â nodi os nad ydych yn fodlon i'ch ymateb neu unrhyw ran ohono fod ar gael i'r cyhoedd.

6. Mae croeso ichi roi'r gwahoddiad hwn i unrhyw un arall sydd â diddordeb.

7. Os hoffech unrhyw wybodaeth ychwanegol cysylltwch â Chlerc y Pwyllgor, John Grimes, ar 029 2089 8225 neu'r Dirprwy Glerc, Sian Wilkins, ar 029 8029 8224.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir

Christine Gwyther AC
Chair, Economic Development and Transport Committee
Cadeirydd, Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

Website: : http://www.cymru.gov.uk/keypubassemecodevtran/index-w.htm

Pobl a sefydliadau sydd wedi ymateb i'r ymgynghoriad

Log Ffeiliau - Adolygiad Polisi ar Anweithgarwch Economaidd

1 Leslie Stowe

2. Cyngor Cymru i Bobl Fyddar

3. Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

4. Wayne David AS

5. Cymunedau yn Gyntaf, Gurnos a Phenydarren

6. Menter Gymunedol Cymru

7. Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

8. Canolfan Gydweithredol Cymru

9. Y Pwyllgor Teithwyr Rheilffyrdd

10. Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol

11. TUC Cymru

12. Bwrdd Croeso Cymru

13. Partneriaeth Pobl Ifanc Castell-nedd Port Talbot

14. Fforwm Economaidd y Gogledd

15. Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

16. Y Gyfarwyddiaeth Adfywio, Cyngor Sir Caerfyrddin

17. Gweini

18. Stephani Mok

19. Y Comisiwn Hawliau Anabledd

20. Sefydliad Cenedlaethol Elusen ac Aelodaeth yng Nghymru

21. Cynhalwyr Cymru

22. Canolfan Cyngor ar Bopeth

23. ABPI

24. Menter a Busnes

25. Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad

1. Lansiodd y Pwyllgor ymgynghoriad ar 12 Rhagfyr 2003 a chael 27 o gyflwyniadau ysgrifenedig. Cyflwynwyd ystod eang o safbwyntiau ar y ffactorau sydd wrth wraidd y lefel isel o weithgarwch economaidd yng Nghymru a deilliodd nifer o themâu o'r safbwyntiau.

Tystiolaeth Ystadegol ac Ymchwil

2. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod angen gwella'r ffordd y caiff gwybodaeth ystadegol ei chasglu am anweithgarwch, er mwyn nodi'n gliriach i ba raddau y mae pobl yn barod i ddychwelyd i'r farchnad lafur neu i ba raddau y gallant wneud hynny. Roeddent hefyd am weld mwy o waith ymchwil i'r rhesymau sydd wrth wraidd anweithgarwch, ac i'r gwaith hwnnw gael ei wneud yn ganolog.

3. Hefyd, nodwyd nad yw'r holl resymau dros anweithgarwch yn negyddol. Er y gall rhai gweithgareddau sy'n 'fuddsoddiad' gael effaith bositif, fel gofal plant ac addysg, mae'n debyg hefyd fod rhesymau diwylliannol neu bersonol gan bobl dros ddewis peidio â mynd i weithio. Roedd myfyrwyr yn aml yn cael eu hepgor wrth gasglu ystadegau anweithgarwch, a theimlwyd y gall fod lle i nodi grwpiau eraill sy'n teimlo nad yw cyflogaeth yn ddymunol nac yn ymarferol iddynt.

4. Roedd y Pwyllgor yn ymwybodol o'r holl waith ymchwil sy'n cael ei wneud er mwyn deall a mynd i'r afael ag anweithgarwch. Er y gall fod lle i wella'r broses o gasglu data am bobl anweithgar, roedd rhai ymatebwyr o'r farn nad oedd digon o waith ymchwil yn cael ei wneud. Oherwydd hyn, hwyrach y byddai o fudd i Lywodraeth Cynulliad Cymru godi ymwybyddiaeth am y gwaith sy'n cael ei wneud, ac ystyried a oes modd gwella'r system bresennol ar gyfer cydlynu'r gwaith ymchwil hwn.

Ffactorau Lleol a Chymunedol

5. Thema gyffredin yn yr ymgynghoriad oedd fod rhaglenni a reolir yn ganolog yn cael eu hystyried yn llai effeithiol na rhai sydd wedi'u teilwra ar gyfer unigolion ac anghenion cymunedau penodol. Roedd anweithgarwch yn aml yn cael ei ystyried yn broblem leol, sy'n dibynnu ar amodau lleol a nodweddion arbennig yr unigolyn.

6. Teimlwyd bod manteision ehangach i'w cael o ddelio ag anweithgarwch ar lefel leol. Gellir adfywio cymunedau difreintiedig drwy gyfrwng gweithgareddau sydd wedi'u hanelu at bobl economaidd anweithgar, a gallai'r cymunedau gynnig mwy o gyfleoedd i helpu pobl economaidd anweithgar i fynd i mewn i'r farchnad lafur. Dywedodd yr ymatebwyr y byddai meithrin gallu yn y gymuned yn rhoi'r cyfle i unigolion ennill hyder a dysgu amrywiaeth o sgiliau, ac yn helpu unigolion i newid yn raddol o fod yn anweithgar i fod yn weithgar.

7. Soniwyd bod angen i'r asiantaethau ategol gydweithio â'i gilydd, ac y dylai rhaglenni dderbyn cefnogaeth asiantaethau'r llywodraeth fel Gyrfa Cymru a'r Ganolfan Byd Gwaith i helpu pobl i feithrin y sgiliau, y cysylltiadau a'r agweddau sydd eu hangen arnynt i ddychwelyd i'r gweithle. Yn ogystal, awgrymwyd y gellir cynnwys rhaglenni cymunedol yng nghylch gwaith y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (CCNC).

8. Fodd bynnag, soniwyd hefyd nad oedd partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf mewn sefyllfa i fynd i'r afael ag anweithgarwch, a hwyrach nad oedd ffocws digonol i raglenni ariannu Cymunedau yn Gyntaf a rhaglenni Ewropeaidd. Hefyd, er bod canolbwyntio ar leoliadau penodol yn helpu i ganolbwyntio'r adnoddau, gallai hefyd beri bod ardaloedd ac unigolion eraill yn cael eu hepgor.

Adfywio Cymunedol

9. Soniwyd y gallai prosiectau cymunedol helpu i adfywio cymunedau, gan feithrin hyder a darparu cyfleoedd uniongyrchol ar gyfer cyflogaeth a hyfforddiant. Yn ogystal, ystyriwyd bod cynnwys y gymuned yn creu cysylltiadau "broceriaeth" rhwng cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a hyfforddiant, a phobl leol.

Gwirfoddoli

10. Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn bod manteision i'w cael o ddefnyddio'r sector gwirfoddol i helpu pobl anweithgar i gael swyddi. Ystyriwyd bod gwirfoddoli'n system gost-effeithiol a oedd yn ategu ac yn gwella sectorau eraill. Roedd gan lawer o sefydliadau gwirfoddol brofiad o ddarparu rhaglenni hyfforddi'r llywodraeth ac roeddent mewn sefyllfa dda i gynghori gwirfoddolwyr di-waith a'u helpu i ddychwelyd i waith cyflogedig. Soniwyd hefyd y gall gwirfoddolwyr ennill y sgiliau a'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gael swydd mewn maes arall, a chael cyfle i ennill profiad a rhoi cynnig ar weithgareddau gwahanol.

11. Nodwyd diffyg hyder yn aml fel un o'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag dychwelyd i'r farchnad lafur. Teimlai'r ymatebwyr fod gwaith gwirfoddol yn rhoi cyfle i bobl fagu hyder, datblygu sgiliau gwaith a sgiliau cymdeithasol a gwneud cysylltiadau a thrwy hynny'n cynnig llwybr yn ôl i weithio. Ond mynegwyd pryder bod y rheolau'n aneglur mewn perthynas â gwaith gwirfoddol a derbyn budd-daliadau, ac nad oedd y swyddogion budd-daliadau'n sicr ohonynt.

Menter Gymdeithasol

12. Ystyriwyd y gallai mentrau cymdeithasol fod yn ffordd o helpu pobl i ddod o hyd i waith a chreu manteision i'r gymuned ehangach drwy greu mwy o waith a chyfoeth, a thrwy adfywio. Gan fod mentrau cymdeithasol yn gosod nodau cymdeithasol pendant yn ogystal ag amcanion economaidd, ystyriwyd eu bod yn darparu amgylchedd mwy cefnogol i bobl economaidd anweithgar ac yn cynnig hyfforddiant mewn swydd.

Marchnadoedd Llafur Trosiannol

13. Rhwydwaith o sefydliadau amrywiol yw'r Marchnadoedd Llafur Trosiannol sy'n darparu swyddi cyflogedig dros dro, fel arfer i bobl sydd wedi bod yn ddi-waith ers talwm, ac yn bennaf i ddarparu swyddi a gwasanaethau i unigolion neu gymunedau dan anfantais. Maent yn canolbwyntio'n bennaf ar wella gallu pobl i gael swyddi drwy ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth.

14. Barn yr ymatebwyr oedd bod y Marchnadoedd hyn yn fanteisiol iawn. Gellir eu defnyddio i dargedu'r rhai mwyaf difreintiedig, creu pontydd rhwng pobl anweithgar a chyflogwyr, datblygu gwaith cyflogedig a chynnig ystod eang o gyfleoedd a sgiliau trosglwyddadwy i bobl.

15. Ymysg eu manteision eraill, gallant gydweithio ag asiantaethau eraill i adfywio cymunedau a dod â manteision amgylcheddol, a gall fod yn bosibl cael cyllid Ewropeaidd ar gyfer prosiectau Marchnadoedd Llafur Trosiannol.

Addysg a Hyfforddiant (Sgiliau)

16. Barn yr ymatebwyr oedd fod llai o gyfleoedd am swyddi ar gael i weithwyr heb lawer o sgiliau a chymwysterau. Yn benodol, roedd rhai grwpiau lleiafrifol a phobl anabl yn tangyflawni'n gyson yn yr ysgol ac wrth ennill sgiliau galwedigaethol. Roedd hyn yn effeithio ar eu gallu i gael gwaith. Awgrymwyd bod profiadau negyddol cynnar o ddysgu yn arwain at gylch parhaol o brofiadau negyddol ac anfantais, ac nad oedd darparwyr yr hyfforddiant yn gallu deall na mynd i'r afael ag anghenion y rhai pellaf oddi wrth y Farchnad Lafur.

17. Awgrymodd yr ymatebwyr y gellir gwella'r system addysg ffurfiol drwy roi mwy o wybodaeth i ddisgyblion cyn iddynt ddewis opsiynau TGAU, cynnig cyrsiau galwedigaethol yn ogystal â chyrsiau academaidd, a rhoi mwy o gefnogaeth i'r rhai sy'n symud o addysg i'r byd gwaith.

18. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ddweud wrth y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes fod nifer y bobl ifanc anabl sy'n ennill cymwysterau yn parhau i fod yn annerbyniol o isel.

19. Awgrymwyd hefyd y gellir gwella addysg alwedigaethol ac addysg i oedolion drwy ddarparu mwy o gynlluniau hyfforddiant mewn swydd (gan ymestyn y rhaglen prentisiaeth fodern), darparu pecynnau hyfforddi i gyflogwyr, ac ymestyn y rhaglenni profiad gwaith.

20. Roedd diffyg 'sgiliau meddal' hefyd yn cael ei nodi'n rheolaidd fel mater yr oedd angen mynd i'r afael ag ef, yn arbennig sgiliau cymdeithasol, meithrin tîm a magu hyder.

Trafnidiaeth

21. Pwysleisiai'r ymatebwyr fod pellter corfforol oddi wrth y farchnad lafur yn allgáu pobl yn gymdeithasol. Roedd nifer yn galw am rwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus sy'n rhad, yn ddibynadwy ac yn gynhwysfawr. Roedd yn rhaid cael trafnidiaeth rad i wneud rhai swyddi ar gyflog isel yn fwy deniadol, ac roedd cymhorthdal cludiant yn un ffordd o helpu pobl economaidd anweithgar i fynd yn ôl i weithio.

22. Pe byddai'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus yn cael ei wella i alluogi pobl economaidd anweithgar i achub ar gyfleoedd am waith, yna byddai angen gwella'r system ar gyfer pob carfan o'r gymdeithas er mwyn cynyddu galw, a thrwy hynny ysgogi cyflenwad. Ymysg yr awgrymiadau ar sut i gyflawni hyn, roedd mynd i'r afael â thagfeydd, rhoi tocynnau trên am ddim yn ogystal â thocynnau bws a gwella ansawdd gwasanaethau a chyfleusterau.

23. Roedd gan rai carfanau broblemau difrifol â thrafnidiaeth gyhoeddus, fel pobl anabl neu bobl sy'n gorfod teithio yn ystod oriau anghymdeithasol. Er na chafwyd llawer o awgrymiadau ar sut i ddiwallu eu hanghenion, un posibilrwydd oedd helpu unigolion i dalu am eu prawf gyrru a'u trwydded yrru.

24. Gwnaed awgrym arall i addasu llinellau trenau nwyddau i gymryd trenau teithwyr. Er ei fod yn syniad gwerth ei ystyried, mae'r Pwyllgor wedi clywed ar sawl achlysur yn y gorffennol y gallai'r costau sy'n gysylltiedig ag uwchraddio llinellau nwyddau i dderbyn trenau teithwyr fod yn uchel, ac efallai'n rhy uchel.

Gofal Plant

25. Dywedodd yr ymatebwyr fod diffyg cyfleusterau gofal plant fforddiadwy yn bodoli yng Nghymru, a bod swyddi yn y sector gofal plant yn gysylltiedig â chyflogau isel a phroffil gwaith gwael. Ar ben hynny, roedd y system budd-dâl trethi yn ei gwneud hi'n anodd i gyfuno gweithio a magu teulu.

26. Cynigiwyd nifer o argymhellion i ysgafnhau'r problemau o ran mynediad i ofal plant:

- Gallai mentrau cymdeithasol gynnig darpariaeth gofal plant ar gyfer economaidd pobl anweithgar a chyfleoedd iddynt weithio.
- Er bod y buddsoddiad yn y mentrau presennol (fel y Fargen Newydd a Cychwyn Cadarn) wedi cynyddu, roedd angen buddsoddi mwy.
- Roedd angen ariannu'r mentrau yn y tymor hir, a'u hymestyn i gynnwys ardaloedd llai difreintiedig.
- Roedd angen hybu gwarchod plant fel ffordd ddeniadol o fod yn hunan-gyflogedig a gweithio oriau hyblyg, ennill sgiliau trosglwyddadwy a chael hyfforddiant heb orfod cael cymwysterau blaenorol.
- Roedd angen ailedrych ar y system drethu a budd-daliadau er mwyn asesu a yw'n helpu rhieni i ddychwelyd i weithio ai peidio.

Gofal iechyd

27. Teimlai'r ymatebwyr y gallai'r sector gofal iechyd yng Nghymru fod yn fwy rhagweithiol wrth ddelio ag anweithgarwch. Awgrymwyd rhaglen gofal iechyd addysgol seiliedig ar atal. Awgrymwyd hefyd fod angen galluogi pobl sydd eisoes yn sâl i dderbyn triniaeth a fyddai'n eu helpu i wneud gwell cyfraniad i'r economi.

28. Gwasanaethau iechyd galwedigaethol a thriniaethau adsefydlu oedd y dulliau mwyaf gwerthfawr o helpu pobl sy'n sâl neu wedi'u hanafu i fynd yn ôl i weithio. Teimlwyd hefyd y dylid annog meddygon teulu i fod yn fwy rhagweithiol wrth annog pobl i adsefydlu a manteisio ar gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a hyfforddiant.

Salwch ac Anabledd

29. Awgrymodd nifer o'r ymatebwyr fod llawer o weithwyr hŷn, yn y gorffennol, wedi cael eu hannog i dderbyn budd-daliadau salwch ac anabledd neu i gael ymddeoliad cynnar, er mwyn gostwng nifer y bobl ddi-waith.

30. Soniodd rhai ymatebwyr hefyd am rwystrau ychwanegol sy'n atal pobl â phroblemau corfforol a meddyliol rhag mynd yn ôl i weithio. Soniwyd y gallai pobl anabl golli eu cymorth gwasanaethau cymdeithasol wrth dderbyn swydd. Mewn rhai achosion, yn arbennig pobl sydd â chyflwr cyfnewidiol a allai golli eu 'cyllid cyfnewidiol' gan yr awdurdodau lleol, gallant golli eu tai wrth dderbyn swyddi. Yn ogystal, gall fod yn anodd symud i fyw oherwydd swydd newydd gan fod angen trefnu cymhorthdal iechyd a byw'n annibynnol yn y lleoliad newydd. Roedd rhwystrau o'r fath, a chyflogau cymharol isel, yn ei gwneud yn arbennig o anodd i bobl symud o fod ar fudd-daliadau anabledd i gychwyn gweithio.

31. Roedd rhwystrau yn y gweithle hefyd, ar ffurf gwahaniaethu a rhagfarn. Pwysleisiodd rhai ymatebwyr fod angen i lywodraethau gymryd camau i leihau'r rhagfarn tuag at gyflogi'r anabl a chodi eu hunan-hyder a'u paratoi ar gyfer gwaith.

32. Soniodd rhai cyfranwyr hefyd fod unigolion sy'n dod yn economaidd anweithgar yn sgil namau corfforol yn aml yn datblygu problemau iechyd meddwl ar ôl bod yn anweithgar am gyfnod. Awgrymwyd na fyddai'n anodd annog pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl i fynd yn ôl i weithio pe byddai'r amodau'n iawn a phe byddai cymorth addas ar gael. Byddai hyn yn gofyn mwy o ymwybyddiaeth am anghenion unigolion sydd â phroblemau iechyd meddwl ac effaith y rhagfarn a'r gwahaniaethu arnynt.

33. Roedd angen i gynghorwyr o bob asiantaeth allu meithrin perthynas gref â'u cleientiaid sydd â phroblemau iechyd meddwl, a gall busnesau buddiannau cyffredin neu'n arbennig y Marchnadoedd Llafur Trosiannol helpu pobl i fynd yn ôl i weithio. Ar gyfer y rhai sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir iawn, cynigiwyd therapïau gwybyddol.

34. Fodd bynnag, roedd angen cydnabod bod pobl sy'n methu gweithio oherwydd anabledd yn aml yn cyfrannu at fywyd y gymdeithas drwy

wneud gwaith gwirfoddol, gofal anffurfiol a ffyrdd eraill o gael dylanwad yn y gymuned.

35. Daeth y berthynas rhwng pobl anabl ac adrannau'r llywodraeth o dan y lach hefyd. Gwelwyd bod mentrau'r llywodraeth wedi canolbwyntio ar geiswyr budd-daliadau newydd yn hytrach na cheiswyr y Budd-dâl Analluogrwydd hirdymor. At hynny, nid oedd Asesiadau Gallu Personol y Ganolfan Byd Gwaith bob amser yn cael eu cynnal yn briodol.

36. Cynigiwyd y dylai cynlluniau peilot llwyddiannus sy'n annog pobl anabl i weithio gael eu hymestyn i feysydd ac unigolion eraill, ac y dylid parhau i roi cymorth i bobl anabl sy'n dychwelyd i'r gweithle. Cafwyd awgrymiadau pellach fod angen mwy o barhad yn y systemau cymorth, ac y dylid llunio strategaeth i ddarparu cymorth technegol yn y cartref i bobl anabl sydd am fod yn rhan o'r byd gwaith. Yn olaf, cynigiwyd y dylai'r Pwyllgor alw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod pobl anabl a chyflogwyr yng Nghymru yn ymwybodol o'u dyletswyddau o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd.

Gofalwyr

37. Yn ôl yr ymatebwyr, roedd pobl sy'n gofalu am blant neu henoed yn y cartref yn wynebu nifer o rwystrau sy'n eu hatal rhag achub ar gyfleoedd i gael gwaith. Roedd cyfrifoldebau llawer o'r gofalwyr yn golygu na allant gyfuno eu cyfrifoldebau â gwaith cyflogedig. Roedd ymrwymiadau gofalwyr yn aml yn eu hatal rhag cael yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt i ddychwelyd i'r farchnad lafur. At hyn, roedd y pwysau a'r teimlad o fod wedi'u hynysu yn peri i ofalwyr golli hyder yn eu gallu eu hunain.

38. Pan oedd cyfle i gael gwaith yn codi, roedd llawer o ofalwyr yn wynebu'r fagl budd-daliadau, yn enwedig o ystyried y gost o dalu i rywun arall wneud y gwaith. Lle roedd gofalwyr yn dod o hyd i waith, nodwyd bod llawer ohonynt yn dewis gweithio oriau llai neu'n gwrthod derbyn swyddi mwy heriol.

39. Soniodd yr ymatebwyr fod prinder gwasanaethau gofal yng Nghymru a galwasant am fuddsoddiad sylweddol a hirdymor i sicrhau bod mwy o wasanaethau gofal da, hyblyg, addas a fforddiadwy ar gael. At

hynny, gofynnwyd Llywodraeth Cynulliad Cymru weithredu ymrwymiad i ddiddymu'r ffioedd am wasanaethau i bobl anabl.

Treth, Budd-daliadau ac Incwm

40. Soniwyd am y fagl budd-daliadau fwy nag unwaith fel problem sy'n atal pobl economaidd anweithgar rhag cyfrannu at y farchnad lafur. Mae'r fagl budd-daliadau'n digwydd pan fo pobl dlawd yn amharod i weithio neu chwilio am swydd well am y byddai unrhyw incwm ychwanegol yn cael ei gymryd oddi arnynt mewn trethi, budd-daliadau colledig a chostau eraill sy'n gysylltiedig â chychwyn gweithio, fel y gost o fynd i'r gwaith. Awgrymwyd y dylid ceisio deall y fagl budd-daliadau'n well, a bod angen teilwra atebion i'r broblem. Eto, soniwyd am y rhwystrau arbennig sy'n wynebu pobl ag anableddau corfforol a meddyliol, am eu bod yn fwy tebygol o fod ar gyflog isel ac aros ar gyflog isel.

41. Dau awgrym ar gyfer lleihau effaith y fagl budd-daliadau oedd cynyddu'r isafswm cyflog a chodi'r lwfans personol ar gyfer treth incwm. Yn ychwanegol, awgrymwyd y dylid diwygio'r system fudd-daliadau a pharhau i roi sicrwydd budd-daliadau i bobl wrth iddynt roi cynnig ar ffyrdd newydd o weithio a gwella eu sgiliau.

Asiantaethau a Strategaethau'r Llywodraeth

42. Roedd rhai ymatebwyr yn cwestiynu effeithiolrwydd model y Ganolfan Byd Gwaith o nodi anghenion pobl economaidd anweithgar yn y tymor hir a'r tymor byr, a diwallu'r anghenion hynny. Codwyd pryderon am systemau'r Ganolfan Byd Gwaith wrth ymdrin â phobl oedd yn ystyried dechrau gweithio a hefyd ymwybyddiaeth y cynghorwyr am amgylchiadau eu cleientiaid a'r cymorth sydd ei angen arnynt pan fyddant yn ddi-waith. Awgrymwyd y dylid ymestyn oriau agor y Canolfannau Gwaith.

43. Mynegwyd y farn y dylai cyrff y llywodraeth gydgysylltu'r gwaith yn well ar bob lefel, yn arbennig ar lefel y DU. Gofynnwyd i'r Cynulliad roi anweithgarwch economaidd ar frig ei flaenoriaethau ar gyfer awdurdodau lleol a'u partneriaid, a chymryd camau i gymell Busnesau Bach a Chanolig i gyflogi pobl anweithgar.

Gwybodaeth a Chymorth

44. Dywedodd yr ymatebwyr fod angen mwy o wybodaeth a chymorth cyffredinol ar bobl anweithgar, ee:

- Cyfuniad addas o wybodaeth, cyngor ac arweiniad.
- Darpariaeth benodol ar gyfer dysgu.
- Cymorth er mwyn helpu pobl i ddeall sut mae'r byd gwaith wedi newid, a sut i addasu i'r farchnad lafur newydd.
- Cymorth er mwyn gwella gallu unigolion i reoli eu sefyllfa ariannol, a chodi ymwybyddiaeth am eu hawliau o ran cyflogaeth.
- Mynediad haws a rhatach at y rhyngrwyd, a mynediad at gyfrifiaduron ar gyfer pobl economaidd anweithgar.

Ethnigrwydd

45. Nodwyd nifer o broblemau penodol i'w hystyried mewn perthynas â phobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru. Roedd llai o sgiliau, cyrhaeddiad addysgol is, ffactorau gofodol, a phroblemau iechyd yn rhai o'r ffactorau sy'n effeithio ar y cyfraddau gweithgarwch economaidd ymysg cymunedau du a lleiafrifoedd ethnig. Roedd prisiau tai uchel yng Nghaerdydd hefyd yn golygu llai o gymhelliant i chwilio am waith, am na fyddai'r incwm y byddent yn ei ennill yn ddigon i'w galluogi i brynu eu tai eu hunain.

46. Soniwyd bod cyrhaeddiad addysgol is yn broblem ymysg rhai grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, a dylid cael system o rannu arferion da ar sail tystiolaeth gan ysgolion sydd â hanes llwyddiannus o fynd i'r afael â than-gyflawni a gwahaniaethu ymysg grwpiau ethnig. Soniwyd hefyd fod angen canolbwyntio ar grwpiau lleiafrifoedd ethnig a oedd yn cael problemau arbennig o ran cyrhaeddiad addysgol isel, drwy sicrhau bod dulliau'r ysgolion o ymgysylltu â rhieni yn ystyried ffactorau penodol i ethnigrwydd.

47. Os, er gwaetha'r rhaglenni newydd, bod y ffynonellau data newydd yn datgelu bylchau parhaus ac anghymesur rhwng cyrhaeddiad grwpiau ethnig, awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnwys ethnigrwydd fel ffactor wrth bennu targedau addysgol. Yn ogystal, lle roedd y gwahaniaeth rhwng cyrhaeddiad gwahanol grwpiau ethnig lleiafrifol yn peri pryder mawr, gofynnwyd i Estyn nodi hyn fel un o wendidau'r ysgol yn ei adroddiad i rieni.

48. Gofynnwyd i'r Cynulliad hefyd adolygu effeithiolrwydd rhaglenni Amcan 1-3 mewn perthynas ag anweithgarwch ymysg lleiafrifoedd ethnig, a gwneud gwaith datblygu cymunedol mewn ffordd oedd yn ddiwylliannol dderbyniol i gymunedau.

Amaethyddiaeth a Thwristiaeth

49. Roedd galw isel yn sgil tymoroldeb yn broblem a oedd yn effeithio'n benodol ar y sectorau twristiaeth ac amaeth, ac a oedd yn ei thro'n effeithio ar y galw am weithwyr o fewn y sectorau hyn. Roedd twristiaeth yn faes a oedd yn darparu swyddi lefel mynediad, ac a oedd yn datblygu sgiliau newydd a throsglwyddadwy.

50. Galwodd yr ymatebwyr am raglenni i ymestyn y tymor twristiaeth, amrywio'r fasnach dwristiaeth, ac annog pobl i gaffael yn lleol er mwyn cynyddu'r galw am nwyddau amaethyddol.

Ffactorau Eraill

51. Cafwyd amrywiaeth o safbwyntiau eraill gan yr ymatebwyr. Yn eu plith roedd:

- Dewis Personol - Yn achos rhai pobl economaidd anweithgar o oed gweithio, nid oedd yr opsiwn o gael swydd yn ddeniadol nac yn bosibl.

- Oed – Roedd pobl o ganol eu pedwar degau ymlaen yn teimlo eu bod wedi'u hanghofio, tra oedd diffyg swyddi deniadol ar gyfer pobl iau.

- Agweddau Personol - Roedd cofnod troseddol, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, beichiogrwydd a bod yn rhiant yn gynnar, rhywioldeb, a diffyg uchelgais yn ffactorau personol a oedd yn effeithio ar allu'r unigolyn i ymgysylltu â'r farchnad lafur.

- Gweithio Gartref - Roedd technoleg newydd fel band eang yn galluogi unigolion i weithio gartref ac yn cynnig trefniadau gweithio hyblyg, yn arbennig ar gyfer pobl â chyfrifoldebau gofalu. Dylid hyrwyddo cyfleoedd i wneud gwaith gwerth uchel yn y cartref.

- Caffael Cyhoeddus - Roedd angen mwy o gefnogaeth i weithredu mentrau caffael cyhoeddus.

- Amodau Gweithio - Gall amodau ac amgylchedd gwaith gwael fod yn rhwystr i fynd i mewn i'r farchnad lafur.

- Gweithio ar gontract - Roedd cyflogwyr yn defnyddio asiantaethau i lenwi swyddi gwag yn hytrach na chreu cyfleoedd ar gyfer gwaith tymor hir.